3.17 Yn y sampl o hysbysebion swyddi a arolygwyd gan swyddogion y Comisiynydd, roedd 8.3% o'r swyddi gafodd eu pennu gyda'r angen am sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Roedd y rhain i gyd yn swyddi hysbysebwyd gan gyrff o set rheoliadau rhif 1 (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol) a rheoliadau rhif 2 (cyrff cenedlaethol Cymru). Os ystyrir y sectorau yma yn unig, roedd 16% o'u hysbysebion swyddi yn dynodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

3.18 Nid oedd yr un o'r hysbysebion swyddi a arolygwyd o gyrff o'r setiau rheoliadau eraill (rheoliadau rhif 5, 6 a 7) wedi dynodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

3.19 O'r holl hysbysebion swyddi a arolygwyd – doedd 10% o'r sampl ddim yn crybwyll neu'n trafod o gwbl beth oedd gofynion ieithyddol y swydd.

3.20 Roedd 45% o'r hysbysebion swydd yn crybwyll dynodiad o sgiliau Cymraeg mewn ffordd wahanol i'r hyn mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano – sef dynodi un o bedwar categori.

3.21 Felly, roedd 54% o'r hysbysebion swyddi a arolygwyd wedi methu â dynodi gofynion ieithyddol y swydd yn unol â gofynion y safon.

3.22 Mae angen i gyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg felly ailystyried eu trefniadau ar gyfer asesu a dynodi y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi cyn hysbysebu.

Gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd: Asesu'r angen am sgiliau Cymraeg mewn swydd newydd a swyddi a ddaw'n wag

Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn nad oedd sefydliad cenedlaethol Cymraeg wedi cynnal asesiad trylwyr o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg cyn hysbysebu a phenodi i swydd cyfarwyddwr. Roedd deiliad blaenorol y swydd yn siaradwr Cymraeg rhugl gyda chyfrifoldeb strategol am y Gymraeg. Roedd yr achwynydd o'r farn y dylai'r swydd gael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol.

Pan fod swydd newydd yn cael ei chreu neu pan ddaw swydd yn wag, mae safonau'r Gymraeg yn creu dyletswydd ar y sefydliad i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg a'i chategoreiddio fel swydd lle mae'r Gymraeg un yn ai hanfodol, dymunol, angen dysgu'r iaith, neu ddim yn angenrheidiol. Rhaid hefyd cadw cofnod o'r asesiad.

Fe wnaeth yr ymchwiliad ddarganfod bod y sefydliad wedi cynnal asesiad o ofynion ieithyddol y swydd cyn ei hysbysebu, gan gasglu bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer rhai elfennau o'r swydd. Er hynny, penderfynodd y sefydliad gategoreiddio'r swydd fel un lle roedd y Gymraeg yn 'ddymunol iawn'. Dadl y sefydliad oedd y byddai categoreiddio'r swydd fel un Cymraeg 'hanfodol' yn cyfyngu'n ormodol ar nifer yr ymgeiswyr posib.

Casglodd yr ymchwiliad fod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg ar y seiliau canlynol:

- Mae'r safonau'n caniatáu sefydliad i osod swydd mewn un o bedwar categori, fel y disgrifir uchod. Nid yw 'dymunol iawn' yn un o'r categorïau hynny ac felly torrodd y sefydliad safonau'r Gymraeg drwy greu categori newydd at ei ddibenion ei hun.
- Roedd asesiad o ofynion ieithyddol y swydd wedi casglu bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer ei chyflawni'n llwyddiannus. Er hynny, penderfynodd y sefydliad beidio â chategoreiddio'r swydd fel un Cymraeg 'hanfodol' wrth ei hysbysebu. Wrth wneud hynny, diystyriwyd yr asesiad gan ei wneud yn ddiwerth. Nid yw cynnal asesiad yn unig yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon. Mae categoreiddio swydd yn groes i ganfyddiad yr asesiad gyfystyr â pheidio a chynnal yr asesiad o gwbl.

Yn sgil yr ymchwiliad, a'r camau gorfodi osodwyd, bu i'r sefydliad dan sylw gynnal adolygiad o'i drefniadau recriwtio a diwygio ei broses a'i ffurflenni fel ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion ac i atal methiant o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol

Asesu sgiliau yn y Gymraeg a meithrin sgiliau Cymraeg cyflogai

- 3.23** O'r sampl o sefydliadau a wnaeth ymateb i holiadur hunanasesu'r Comisiynydd, roedd 70% yn datgan eu bod yn cydymffurfio â sicrwydd uchel ar gyfer y gofyniad i asesu sgiliau Cymraeg eu staff. Mae nifer o gyrff yn cofnodi sgiliau staff yn glir ac yn adrodd yn flynyddol ar lefelau sgiliau yn eu hadroddiadau blynyddol.
- 3.24** Roedd gweddill y sampl yn nodi sicrwydd canolig — yn bennaf gan gydnabod eu bod yn ddibynnol ar system nad yw'n gorfodi staff i gofnodi eu sgiliau, neu fod system adnoddau dynol ddim yn cefnogi casglu data yn hawdd.
- 3.25** Dim ond 59% o'r sampl oedd yn asesu eu bod yn cydymffurfio gyda sicrwydd uchel ar gyfer yr angen i feithrin sgiliau eu cyflogai.
- 3.26** Roedd nifer o gyrff hefyd yn adrodd bod hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i staff, megis hyfforddiant iechyd a diogelwch neu hyfforddiant technoleg gwybodaeth yn debygol o fod yn Saesneg a bod cynnal niferoedd digon uchel i ddarparu hyfforddiant o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg yn anodd.

Canfyddiadau'r adolygiad annibynnol

- 3.27** Mae canfyddiadau arolygu'r Comisiynydd yn cyd-fynd i raddau helaeth â chanfyddiadau'r adolygiad annibynnol. Dyma grynhoi rhai o'r canfyddiadau hynny isod.
- 3.28** Yn gyntaf, mae'n bwysig diffinio yr hyn a olygir gan 'llwyddiant'. Dyma sut roedd y sefydliadau oedd yn rhan o'r adolygiad eu hunain yn gweld llwyddiant:
- Cynnydd yn y nifer/canran o staff â sgiliau Cymraeg;
 - Llwyddo i recriwtio pobl â'r sgiliau iaith / sgiliau Cymraeg perthnasol;
 - Llwyddo i lenwi rhai swyddi sydd â gofynion am sgiliau Cymraeg;
 - Cynnal yr un nifer/canran o staff sydd â sgiliau Cymraeg;

-
- Canran uchel o staff â sgiliau Cymraeg;
 - Cynnydd mewn staff sydd am wella eu sgiliau Cymraeg;
 - Cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i staff i wneud defnydd o'r Gymraeg.

3.29 I'r gwrthwyneb, roedd y sefydliadau yn gytûn bod diffyg llwyddiant gyfystyr â methiant i ddenu siaradwyr Cymraeg rhugl neu fethiant i ddenu siaradwyr Cymraeg i lenwi mathau penodol o swyddi.

3.30 Yn ôl y sefydliadau eu hunain hefyd, dyma oedd y prif resymau dros lwyddo:

- System categoreiddio anghenion iaith swyddi cadarn mewn lle;
- Cyfathrebu anghenion sgiliau iaith swydd yn glir;
- Cydweithio ag ysgolion a cholegau addysg uwch;
- Hysbysebu ar wefannau Cymraeg / cyfryngau cymdeithasol;
- Ymdrech fwriadus i gydymffurfio â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg;
- Ymdrech fwriadus gan y sefydliad i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol;
- Gosod targedau.

3.31 A'r prif resymau dros ddiffyg llwyddiant:

- Diffyg hyfforddiant ymwybyddiaeth a diffyg canllawiau clir i reolwyr;
- Gwendidau wrth gyfathrebu gofynion iaith swyddi i ymgeiswyr;
- Prinder ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg / demograffi'r dalgylch;
- Heriau recriwtio ehangach y farchnad lafur / effeithiau'r pandemig;
- Sefydliad ddim yn cynnig cyflogau digon cystadleuol;
- Sefydliad mawr yn ei chael hi'n anodd gweithredu'r safonau ym mhob rhan ohono.

-
- 3.32** Gwelwyd felly gydnabyddiaeth gan sefydliadau eu hunain o'r angen i wella eu trefniadau a bod hynny yn rhan greiddiol o'r rheswm dros ddiffyg llwyddiant. Mae'n arwyddocaol nodi mai ychydig yn llai na hanner y sampl (11 o'r 24) wnaeth gofnodi gyda sicrwydd fod eu trefniadau recriwtio wedi bod yn ffordd lwyddiannus / effeithiol i benodi unigolion sy'n medru'r Gymraeg a chynyddu'r adnodd sgiliau Cymraeg o fewn eu gweithluoedd. Roedd dros hanner felly yn ystyried bod yna le i wella a newid er mwyn llwyddo.
- 3.33** Roedd 13 o'r 24 sefydliad wedi tystio eu bod yn cadw at drefniadau'r safonau ac argymhellion y Comisiynydd fel y nodir yn ei ddogfen [gyngor ar recriwtio](#) ond ar sail dadansoddiad y cwmni ymgynghorol o'r dystiolaeth a ddarparwyd, yr awgrym yw nad ydi eu harferion recriwtio nhw yn cadw mor driw at y ddogfen honno ag y maent yn ei gredu.
- 3.34** Roedd 9 o'r 24 sefydliad wedi rhoi atebion eithaf amwys i'r cwestiwn ynghylch y graddau y maent yn cadw at drefniadau a argymhellir gan y Comisiynydd a 3 sefydliad wedi bod yn gwbl agored yn dweud nad ydynt yn cydymffurfio.
- 3.35** Y casgliad felly yw bod lle i wella ac i ailystyried cyngor y Comisiynydd drwyddi draw ar draws sefydliadau.
- 3.36** **Barn y Comisiynydd yw bod llawer iawn mwy gan sefydliadau i'w wneud i sicrhau cadernid eu trefniadau recriwtio ac y gallai gwneud newidiadau i'r trefniadau hynny a rhoi mwy o werth i'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle arwain at fwy o lwyddiant i recriwtio siaradwyr Cymraeg.**
- 3.37** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cwmni IAITH, mae'r Comisiynydd yn awyddus i sefydliadau gymryd yr amser i adolygu eu trefniadau recriwtio eu hunain gan gymharu'r prosesau a'r gweithdrefnau gyda'r arferion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw. Mae'n awyddus bod sefydliadau yn adnabod lle mae arferion cadarnhaol eisoes a lle mae arferion a allasai effeithio'n negyddol ar lwyddiant i recriwtio siaradwyr Cymraeg.
- 3.38** Mae'r neges a'r cyngor a roddwyd i gyrff yn ei adroddiad llynedd yn parhau i sefyll ac mae'r Comisiynydd yn gofyn i sefydliadau gymryd sylw o'r gwaith ymchwil pwysig hwn a chymryd camau pendant i ystyried ac asesu eu sefyllfa bresennol a mynd i'r afael ag unrhyw arferion sydd yn effeithio ar eu llwyddiant i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae'n awyddus i weld bod sefydliadau yn cymryd y cyngor hwn o ddifri cyn y bydd yn rhoi cynllun ar waith i orfodi newid.

Camau cadarnhaol “galluogi newid” Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yn ystod 2022 bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent baratoi cynllun gweithredu gorfodol mewn ymateb i ymchwiliad a wnaed gan y Comisiynydd oherwydd methiannau i gydymffurfio gyda safonau gwasanaethau ffôn a methiannau cysylltiedig ym meysydd recriwtio staff i gynnal gwasanaethau.

Roedd y Cyngor yn derbyn bod angen newidiadau a chynhaliwyd arolwg system gyfan mewn ymateb gan ystyried gofal cwsmer fel amcan canolog i'r holl ystyriaethau.

Wrth weithredu'r cynllun sicrhawyd o'r cychwyn bod cefnogaeth lawn gan arweinyddiaeth y sefydliad, a bod cefnogaeth i'r holl newidiadau a grybwyllwyd. Hefyd, sicrhawyd cefnogaeth gan rwydweithiau corfforaethol a rhwydwaith cymunedol Cymraeg Blaenau Gwent.

Drwy gynllunio gyda golwg ar wella gwasanaethau yn gyffredinol, ac i gefnogi gweithio yn hyblyg i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, derbyniwyd cefnogaeth gan holl adrannau perthnasol i'r gwaith.

Ystyriwyd newidiadau o fewn yr holl adrannau i gefnogi gwella'r gwasanaeth, gan gynnwys ystyried prosesau recriwtio, asesu sgiliau, datblygu sgiliau gan ganolbwyntio ar sut i ddenu siaradwyr Cymraeg i mewn i'r sefydliad — drwy gynnal meddylfryd ‘can do’ a gweledigaeth bod modd llenwi swyddi gyda phobl â'r sgiliau cywir drwy feddwl yn ofalus a chreadigol am anghenion swyddi a drwy hysbysebu yn wybodus.

Maent wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ac wedi cael adborth da gan swyddogion oedd â dim Cymraeg cyn yr ymyrraeth hon, ac maent wedi canolbwyntio hyfforddiant ar feysydd gwaith lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w gofal cwsmer. Maent wedi ystyried sut y gall technoleg eu cefnogi gyda'r gwaith.

Maent hefyd wedi penderfynu dathlu llwyddiannau mawr a bychan, gan dderbyn bod llawer o waith i'w wneud maent wedi adnabod bod ychwanegu nifer o gamau bach ar draws y sefydliad yn gallu arwain at newidiadau mawr cadarnhaol i'w lefelau sgiliau Cymraeg ac yn bennaf i'w gofal cwsmer ar gyfer bob un o'i dinasyddion.

Gellir gweld trafodaeth o'r gwaith hwn [yma](#).

Atodiad 1:

Tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac amrywiol, gan gynnwys:

- monitro – cynnal arolygon profiad defnyddwyr (gwirio gwasanaethau fel gohebiaeth, ffôn, ffurflenni, dogfennau, hunaniaeth gorfforaethol, gwefannau ac ati);
- gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi;
- cyswllt â sefydliadau – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau;
- Cyfarfodydd casglu tystiolaeth gyda sefydliadau.

O ran arolygon profiad defnyddwyr, dylid nodi bod y canlyniadau'n seiliedig ar wirio gwasanaethau pob sefydliad rheoliadau rhif 1 a 7, a sampl o gyrff rheoliadau rhif 2, 4, 5 a 6 yn ogystal â detholiad o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Mae rhestr o'r gyrff oedd yn destun arolygon isod. Noder felly nad yw'r cymariaethau rhwng y sampl blynyddol ar gyfer rhai setiau rheoliadau yn cymharu yr un gyrff. Fodd bynnag, mae'n cynrychioli perfformiad y gyrff o fewn y set rheoliadau dros amser.

Cynhaliwyd yr arolygon gwirio gan swyddogion y Comisiynydd. Gwiriwyd y gwasanaethau dair gwaith yn ystod y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion a gyda methodoleg glir yn seiliedig ar ofynion y safonau o ran yr hyn a nodir fel cydymffurfiaeth ai peidio.

Profiad defnyddwyr yw prif nod y gwaith gwirio, fodd bynnag roedd y gwirio yn ystyried gofynion y safonau yn llawn, a chyfeirir at rhain yn yr adroddiad lle'n berthnasol i nodi'r angen am well cynllunio ac ati.

Oherwydd penderfyniadau a wnaed yn sgil y pandemig nid yw arolygon wedi eu hallanoli wedi'u cynnal yn y blynyddoedd diwethaf. Golyga hyn nad oes data ar berfformiad gwasanaethau megis arwyddion a ddangosir gan gyrff, derbynfeydd a pheiriannau hunanwasanaeth wedi ei gynnwys gan nad oedd modd eu gwirio.

Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg:

Cynhaliwyd 403 o gyfweiliadau y flwyddyn hon gyda siaradwyr Cymraeg ym mis Hydref 2022. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cofnodi eu bod yn rhugl. Roedd y sampl yn gynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd yng Nghymru (trwy edrych ar gyfran sy'n medru siarad Cymraeg o fewn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru).

Rhestr o sefydliadau a arolygwyd ar gyfer canfyddiadau arolygon gwirio

Rheoliadau Rhif 1

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Gweinidogion Cymru

Rheoliadau Rhif 2

- Cyngor Llyfrau Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd
- Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- National Theatre Wales
- Ombwdsman Gwasanaethau
- Cyhoeddus
- S4C
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Theatr Genedlaethol Cymru

Rheoliadau Rhif 4

- Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Prisio Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Rheoliadau Rhif 5

- Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Heddlu Dyfed Powys
- Heddlu De Cymru

Rheoliadau Rhif 6

- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Coleg Cambria
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Sir Gâr/ Ceredigion
- Grŵp Llandrillo Menai
- Gyrfa Cymru
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr
- Prifysgol Met Caerdydd

Rheoliadau Rhif 7


- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Arolwg Ordnans
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cofrestrfa Tir EF
- Comisiwn Elusennau
- Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Swyddfa Brisio
- Swyddfa Cymru
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Swyddfa Gartref
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Ymddiriedolaeth Garbon
- Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF
- Gwasanaeth Arian a Phensiynau
- Y Coleg Plismona



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



FF: 0345 6033 221

E: post@cyg-wlc.cymru

[@comygymraeg](#) 

[@comygymraeg](#) 

ComisiynyddyGymraeg 

Comisiynydd y Gymraeg/
Welsh Language Commissioner 

comisiynyddgymraeg.cymru

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Craffu Chwaraeon Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau
Rhyngwladol**

Tachwedd 2023

*sportwales
chwaraeoncymru*

Cyflwyniad:

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei darparu i gynorthwyo gyda sesiwn craffu Chwaraeon Cymru yn y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 8 Tachwedd 2023.

Cefndir

Mae'r wybodaeth isod yn rhan o'n Hadroddiad Blynyddol 2022/23 sydd i'w gyflwyno yn fuan, a'n Cynllun Busnes ar gyfer 23/24.

Y WELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU

'Cenedl Actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn sail i'n gwaith ni fel sefydliad, gwaith cydweithredol y sector chwaraeon, a chyfranogiad rhanddeiliaid ehangach. Nid dim ond i Chwaraeon Cymru weithio tuag ati mae'r Weledigaeth, ond yn hytrach mae'n gyfrwng cyfunol ar gyfer ymgysylltu traws-sector i drawsnewid Cymru yn genedl actif.

Cenedl Actif – Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.

Pawb - Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn gweld eu hunain fel rhai medrus mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau.

Gydol Oes – Mae'r weledigaeth am oes; mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.

Mwynhad – Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar greu ystod o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.

Mae'r Weledigaeth wedi'i seilio ar y *5 Ffordd o Weithio* yn unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**:

Hirdymor – Mae'r weledigaeth yn sicrhau ein bod ni, ochr yn ochr â'n partneriaid, yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, yn datblygu cyfleoedd sy'n ymateb i anghenion pawb mewn cymdeithas sy'n newid.

Atal – Mae'r weledigaeth yn ymwneud â sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, yn hwyl ac yn fforddiadwy, ac nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae hefyd yn sicrhau ein bod ni'n cyfrannu adnoddau at atal problemau rhag digwydd, neu rhag gwaethygu.

Integreiddio – Mae'r weledigaeth yn uno'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau drwy ei huchelgeisiau. Mae'n seiliedig ar effaith gydweithredol yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

Cydweithredu – Mae'r weledigaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru ac angen cefnogaeth pawb – gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ymwneud – Lluniwyd y weledigaeth yn dilyn sgysiau gydag unigolion o bob rhan o Gymru ac mae'n parhau i hyrwyddo cyfranogiad i lunio dyfodol Cymru fel cenedl actif.

Mae'r Weledigaeth yn sail i'n strategaeth ni, a'n cynllun busnes blynyddol. Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwch yn darllen am feysydd craidd ein gwaith sy'n hwyluso ein gwaith tuag at y weledigaeth.

Rydym yn hynod ddiolchgar ac yn falch iawn o'r ymdrech gydweithredol gan y sector chwaraeon yng Nghymru i fod yn ymroddedig i'r weledigaeth.

EIN STRATEGAETH

Fel rhan o'n rôl yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, rydym yn gweithio yn unol â chwe datganiad bwriad strategol. Mae'r datganiadau sefydliadol hyn yn dangos yr hyn y gallwch ddisgwyl ei weld o'r gwaith rydym yn ei gyflawni, a'r gwaith rydym yn rhan ohono.

Mae'r datganiadau hyn hefyd yn gweithredu fel ein Nodau Llesiant, ac rydym yn eu defnyddio i fframio ein hadroddiadau ar ddyletswyddau cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf) Cymru 2015. Fe welwch chi lawer o enghreifftiau o sut rydym yn gweithio tuag at y nodau hyn yng nghorff yr adroddiad ac yn yr adran 'Ein gwaith fel Corff Cyhoeddus'.

Ein datganiadau bwriad strategol yw:

#1 BOD YN BERSON-GANOLOG

Anghenion a chymhellion yr unigolyn sy'n arwain y cyflwyno, boed wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd, neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

#2 RHOI DECHRAU GWYCH I BOB PERSON IFANC

Mae gan bob person ifanc y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi sylfaen iddynt i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

#3 SICRHAU BOD PAWB YN CAEL Y CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwyb i bawb.

#4 DOD Â PHOBL AT EI GILYDD YN Y TYMOR HIR

Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.

#5 ARDDANGOS MANTEISION CHWARAEON

Mae tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

#6 BOD YN SEFYDLIAD HYNOD WERTHFAWR

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch, sy'n ymdrechu i orgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff gwerthfawr.

Ein Cynllun Busnes

Yn unol â'n llythyr cylch gwaith ar gyfer tymor y llywodraeth, rydym wedi pennu saith maes blaenoriaeth ar gyfer ein Cynllun Busnes i'n galluogi i gyflawni ein strategaeth a'r Weledigaeth.

Yn 2023/24, y blaenoriaethau hyn yw:

Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant

Byddwn yn anelu at greu diwylliant cynhwysol o berthyn o fewn y sefydliad.

System Chwaraeon Gynhwysol

Bydd system chwaraeon gynhwysol yn darparu cyfleoedd sy'n cael eu harwain gan angen, sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol.

Partneriaethau Chwaraeon

Byddwn yn arwain newid yn y system ac yn sefydlu rhwydwaith amrywiol o bum Partneriaeth Chwaraeon yng Nghymru, gan fynd i'r afael â dau fater hirsefydlog:

- Sicrhau bod y gefnogaeth a'r cyfleoedd cywir yn eu lle ar gyfer y rhai nad ydynt yn actif yn gorfforol yn rheolaidd – gyda ffocws clir ar gael gwared ar rwystrau i'r rhai sydd angen yr help mwyaf
- Cymryd camau i fodloni'r galw cudd uchel ymhlith y rhai sy'n actif ond sydd eisiau gwneud llawer mwy

Iechyd a Lles

Byddwn yn arddangos, yn cynyddu ac yn manteisio i'r eithaf ar y rôl y mae chwaraeon yn ei chwarae wrth gefnogi iechyd a lles pobl gan arwain at system chwaraeon gynhwysol.

Rydym eisiau gweld tystiolaeth bod y rôl y mae chwaraeon yn ei chwarae wrth gyfrannu at ganlyniadau iechyd y boblogaeth yng Nghymru yn cael ei gwerthfawrogi a'i deall drwy feysydd polisi (addysg, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a chydaddoldeb).

Addysg

Byddwn yn effeithio ar bolisiau addysg fedr gael effaith gadarnhaol ar y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfleoedd i holl blant Cymru fod yn actif yn ystod y diwrnod ysgol ac o'i gwmpas.
- Gweithio gydag ysgolion bro, buddsoddiad cyfalaf a pholisiau addysg eraill sy'n effeithio ar chwaraeon

Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Datgarboneiddio

Byddwn yn rhoi Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Chwaraeon Cymru ar waith.

Rydym yn cydnabod bod Argyfwng Hinsawdd a Natur yn bodoli a bod angen cyflymu camau gweithredu i leihau allyriadau carbon. Rydym eisiau i Chwaraeon Cymru gyfrannu'n gadarnhaol at darged sector cyhoeddus sero net Llywodraeth Cymru erbyn 2030 a rhoi arweiniad a chymorth i'r sector gyflawni hyn. Bydd hyn yn cefnogi chwaraeon yng Nghymru i ddod yn gynaliadwy ac yn darparu cyfleoedd gydol oes i bawb.

Buddsoddiadau

Mae ein nod ni fel a ganlyn:

- Bod â dull buddsoddi agored a thryloyw sy'n cael ei lywio gan anghenion pobl Cymru ac sy'n eu galluogi i fod yn actif mewn chwaraeon.
- Cynyddu'r effaith y mae'r buddsoddiad yn ei chael ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mewn Chwaraeon a'r Weledigaeth ar gyfer Cymru
- Sefydlu proses ar gyfer cael mynediad i gyllid a'i ddyfarnu sy'n syml ac yn effeithlon.

Penawdau Chwaraeon Cymru 2022/23

Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn fuan, fodd bynnag, isod mae rhai o uchafbwyntiau allweddol yr adroddiad hwnnw.

EIN DULL BUDDSODDI

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, ac i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i greu'r effaith fwyaf ymhlith y rhai sydd ei angen fwyaf, mae Chwaraeon Cymru wedi gweithredu dull buddsoddi beiddgar. Mae dau brif ddull (isod):

• *Buddsoddiad sy'n cael ei Sbarduno gan Ddata*

Yn 2020 fe wnaethom weithredu cam cyntaf ein dull newydd o fuddsoddi mewn partneriaeth â'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol y mae gennym ystadegau lefel genedlaethol a data perfformiad ar eu cyfer. Mae'r dull buddsoddi hwn sy'n cael ei sbarduno gan ddata yn ein galluogi i wrando ar yr hyn y mae pobl Cymru yn ei ddweud wrthym maent eisiau ei wneud, gan ddefnyddio data fel sail i'r swm mwyaf o arian rydym yn ei fuddsoddi mewn partneriaid unigol a rhoi mwy o arwyddocâd i hil, rhywedd, anabledd ac amddifadedd. Mae'r dull hwn yn newid sylweddol o'r ffyrdd blaenorol o gyllido, ac rydym yn parhau i gefnogi'n partneriaid drwy'r cyfnod pontio hwn.

• *Dull sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion o fuddsoddi mewn partneriaid*

Eleni, aeth tîm prosiect ati i greu dull newydd o bennu lefel y buddsoddiad ar gyfer partneriaid lle nad oes data lefel arolwg ar gael, a oedd yn cyd-fynd â'n strategaeth a'r ffordd gydweithredol newydd o weithio gyda phartneriaid.

Bydd dull o weithredu sy'n cael ei 'sbarduno gan egwyddorion' yn cael ei ddefnyddio er mwyn pennu buddsoddiad yn ein Partneriaid Cenedlaethol. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o opsiynau, a dewiswyd dull gweithredu sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion yn dilyn ymchwil defnyddwyr, trafodaethau mewnol ac allanol, a phrofi cadarn. Mae defnyddio dull sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion o weithredu'n rhoi eglurder o ran y meysydd rydym yn dymuno buddsoddi ynddynt, a'r hyn sy'n bwysig i'n gwerthoedd a'n cynllun busnes, ac mae'n cyd-fynd â'r Weledigaeth.

Y 3 egwyddor allweddol yw:

- Creu sector chwaraeon cyfartal, amrywiol a chynhwysol
- Gwella Chwaraeon yng Nghymru
- Meithrin gallu

Ni fydd y dull o weithredu'n newid y ffordd rydym yn gweithio gyda phartneriaid, nac yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd a fyddai'n rhoi baich ar y sefydliadau hynny. Bydd y broses fuddsoddi'n digwydd heb newid y ffordd gydweithredol o weithio rydym wedi'i datblygu'n ddiweddar, ar y cyd â'n partneriaid. Ni fydd ein dull o weithredu, sy'n cynnwys sgysiau parhaus gyda phartneriaid ynghylch yr hyn sydd wir yn bwysig, yn newid; bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i annog dysgu a datblygu gyda'n gilydd. Yr hyn fydd yn newid yw y bydd gennym ddull buddsoddi sy'n dryloyw ac yn dosbarthu buddsoddiad mewn ffordd lawer gwell i gyflawni'r Weledigaeth.

Dull newydd o fuddsoddi yn y gymuned

Yn dilyn y bartneriaeth lwyddiannus gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yn 2021-22, a oedd, drwy gynnwys ymgeiswyr posibl nad oeddent wedi gwneud cais o'r blaen, a chymunedau a oedd wedi defnyddio'r system, wedi amlygu bod ymgeiswyr am ein cyllid yn aml yn cael eu digalonni gan ein system rheoli grantiau, parhaodd y gwaith i mewn i 2022-23 gyda chyfnod Alpha+ estynedig o 14 wythnos. Roedd hwn yn canolbwyntio ar gynllunio a gwerthuso siwrnai'r defnyddiwr yn barhaus, a sut mae'n effeithio ar brosesau swyddfa a gofynion systemau mewn perthynas â Chronfa Cymru Actif gennym.

Ar ôl i Alpha+ ddod i ben ym mis Mehefin 2022, gwnaed argymhellion i Chwaraeon Cymru, a roddwyd ar waith yn ail hanner 2022-23. Roedd llawer o'r argymhellion yn gysylltiedig â chaffael system fuddsoddi newydd, a gafodd ei ffurfioli ym mis Hydref 2022 gyda phenodi cyflenwr newydd, Civic UK. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers hynny i ddatblygu system fuddsoddi newydd sy'n diwallu anghenion Chwaraeon Cymru ac ymgeiswyr fel ei gilydd ar gyfer y tymor hir, gyda'r bwriad o lansio'r system newydd yn gynnar yn 2023-24.

Mae newidiadau wedi'u gwneud hefyd i'n prosesau mewnol presennol i helpu i leihau'r rhwystrau i grwpiau sy'n gweithio i leihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad i'n cyllid.

Mae'r Tîm Buddsoddi yn cydweithredu ag ymgeiswyr cyn i gais gael ei wneud, gan eu cynorthwyo yng nghamau cychwynnol prosiect i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cyllido, neu eu cyfeirio at bartneriaid perthnasol os oes arnynt angen cymorth ychwanegol, drwy gyfrwn y Ffurflen Datgan Diddordeb newydd a lanswyd ym mis Mawrth 2023. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â rôl gwaith ymchwil partner parhaus gan Chwaraeon Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff rheoli cenedlaethol ar y rôl maent yn ei chwarae mewn buddsoddi cymunedol. Rydym hefyd yn buddsoddi £8m mewn cyllid cyfalaf drwy'r cynlluniau isod.

Cyllido Torfol: Dull cyllido cyfatebol sy'n cynnig cefnogaeth o hyd at £15,000 i helpu clybiau cymunedol nid-er-elw i wneud eu cyfleusterau yn fwy ecogyfeillgar, yn gynaliadwy yn economaidd a darparu profiad gwell i bawb. Mae'r cyllid yn cael ei bwysoli'n benodol tuag at ardaloedd o amddifadedd a chynhwysiant.

Grant Arbed Ynni: Cronfa newydd eleni o hyd at £25,000 ar gyfer clybiau cymunedol nid-er-elw i gael cymorth i leihau eu biliau ynni a chynyddu eu cyfraniad at yr agenda datgarboneiddio. Mae'r gronfa hon yn cefnogi pethau fel paneli solar, pymphiau gwres ac inswleiddio.

Cronfa Gyfalaf Partneriaid: Cronfa sy'n cynnig cefnogaeth o hyd at £300,000 ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol, Partneriaid Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol i wella'r seilwaith chwaraeon yng Nghymru. Mae'r gronfa hon yn darparu ar gyfer blaenoriaethau strategol ein partneriaid ni ar draws chwaraeon cymunedol a pherfformiad.

Cydweithrediad CTA / Cyrtiau: Cronfa sy'n dod â dwy set o bartneriaid at ei gilydd. Hoci Cymru/URC a CBDC i gefnogi buddsoddiadau cydweithredol mewn CTA a chaeau 3G, a Phêl Fasged Cymru / Pêl Rwyd Cymru a Thennis Cymru ar gyfer buddsoddiadau cydweithredol mewn cyrtiau.

Ymgyrch Recriwtio Prentisiaid Digidol

Eleni, fe wnaethom recriwtio dau Brentis Digidol i weithio fel rhan o'n tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau ac i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i sicrhau lle i'r prentisiaid hyn ar eu cwrs gradd Peirianeg Meddalwedd.

Cyn y broses recriwtio, buom yn ystyried sut gallem sicrhau'r cyrhaeddiad gorau posib i'r hysbysebion a chynyddu'r cyfle i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaethom rai newidiadau allweddol i'n proses recriwtio arferol, fel a ganlyn:

Gwarantu cyfweliadau i ymgeiswyr o gefndiroedd a phrofiadau amrywiol oedd yn bodloni gofynion hanfodol y rôl.

Cynnal tri sesiwn galw heibio er mwyn i ddarpar ymgeiswyr allu cyfarfod yn anffurfiol â rhai o aelodau'r tîm a dysgu mwy am y rôl.

Daeth nifer dda i'r sesiynau galw heibio wythnosol a rhoddodd gyfle gwirioneddol i ni bwysleisio'r diwylliant cynhwysol sydd gennym yn Chwaraeon Cymru mewn sesiwn mwy anffurfiol. Roedd pob sesiwn yn ddiddorol iawn, ac roedd ymdeimlad clir o gyffro ymhlith y rhai oedd yn bresennol.

Caeodd yr hysbyseb gyda'r nifer uchaf erioed o geisiadau am rôl yn Chwaraeon Cymru (143). Roedd safon y ceisiadau am rôl o'r natur yma'n eithriadol uchel a nododd dadansoddiad o ddemograffeg yr ymgeiswyr eu bod yn llawer mwy amrywiol nag y byddem yn ei weld fel arfer ar gyfer rôl arferol. Ceir rhagor o fanylion isod:

- 16% o gefndiroedd ethnig amrywiol
- 8% ag anabledd
- 13% LGBTQ+
- 8% y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni.

- 32% gyda galluoedd yn y Gymraeg.

Yn y pen draw, bu hon yn ymgyrch recriwtio lwyddiannus iawn a dysgwyd nifer o wersi allweddol a allai fod yn sail i ymgyrchoedd yn y dyfodol, yn ogystal â rhywfaint o ddysgu sefydliadol. Nodwyd y gwersi allweddol a ddysgwyd ar hyd y ffordd, fel y canlynol:

- Roedd ehangu ein rhwydweithiau EDI ar draws y sefydliad yn help mawr i ni wthio'r hysbyseb ar gyfer y swyddi hyn i sylw pŵl eang ac amrywiol o ddarpar ymgeiswyr.
- Roedd bod yn glir ynghylch pwysigrwydd EDI (yn enwedig gwarantu cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr amrywiol) yn yr hysbyseb swydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn.
- Roedd y sesiynau galw heibio yn ffordd wych i ddarpar ymgeiswyr weld ein diwylliant a'n gwerthoedd ni ar waith a chael ymdeimlad o sut brofiad yw gweithio i Chwaraeon Cymru.

Sylw i: Chwaraeon Ramadan

Mae ein Prosiect Chwaraeon Ramadan yn fenter sydd â'r nod o hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn ystod Ramadan a meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o'r ddefod hon o fewn y gymuned Fwslimaidd. Cyllidwyd y prosiect hwn gan gyllid Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru Llywodraeth Cymru ac mae'n adeiladu ar ddisgwyliadau llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb ar draws y sector.

Mewn **cydweithrediad** â Foundation 4 Sports Coaching, fe wnaethom ymgysylltu ac **ymwneud** â'r Gymuned Fwslimaidd yng Nghaerdydd i gael gwybodaeth a sicrhau bod y prosiect yn ddiwyllianol briodol ac yn parchu arferion y gymuned Fwslimaidd. Fe wnaethom gyfarfod yn rheolaidd â Foundation 4 Sports Coaching a chynhaliwyd dau ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru a oedd o gymorth i ni fireinio ein dull gweithredu a rhoi gwell cymorth i gyfranogwyr yn ystod Ramadan.

Drwy gydol y prosiect, fe wnaeth heriau heb eu rhagweld ein hysgogi ni i ofyn cwestiynau ystyrlon i herio ein hunain a darganfod ffyrdd newydd o weithio. Rydym yn bwriadu rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'r sector yn ystod yr wythnosau nesaf.

Wrth symud ymlaen, ein nod ni yw creu gwaddol hirdymor i Ramadan yn y **tymor hir** yn Chwaraeon Cymru drwy sicrhau gofod diogel a chynhwysol i'n cymuned Fwslimaidd drwy gydol y flwyddyn. Gobeithiwn y bydd effaith y prosiect yn ein helpu ni i nodi meysydd i'w gwella ymhellach ac edrych ar gyfleoedd i ehangu prosiectau tebyg i gymunedau a defodau eraill. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i flaenoriaethu **cydweithredu**, cynhwysiant ac **ymwneud**. Rydym wedi sicrhau gwybodaeth werthfawr o'r prosiect hwn ac rydym wedi ymrwymo i'w defnyddio fel sail i'n gwaith ni yn y dyfodol. Rydym yn falch o'n cynnydd ac yn edrych ymlaen at barhau i hyrwyddo gweithgarwch corfforol a lles i bawb.

Sylw i: Birmingham 2022 – mwy na medalau

Nid yw pobl yn cael eu geni yn athletwyr y Gymanwlad; maen nhw'n cael eu creu gan y cymunedau, y bobl, a'r clybiau maen nhw'n eu cyfarfod ar hyd y daith.

Mae pob athletwr wedi bod ar ei siwrnai ei hun i gyrraedd Birmingham 2022 – er enghraifft efallai eu bod wedi dechrau yn eu camp yn hwyr, yn dod o ardal wledig, neu wedi jyglo swyddi a theulu gyda hyfforddiant.

Yn ystod y cyfnod cyn Gemau'r Gymanwlad, buom yn **cydweithredu** â Thîm Cymru, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, athletwyr, hyfforddwyr, a staff cefnogi i lansio ymgyrch yn tynnu sylw at straeon athletwyr dethol. Nod y naratif oedd chwalo llawer o fythau sy'n gysylltiedig â pherfformio ar lwyfan y byd ac adrodd straeon o fywyd real a oedd yn ategu ein hegwyddorion a oedd yn sail i weithgarwch datblygu athletwyr sy'n canolbwyntio ar system chwaraeon fwy cynhwysol.

Mae arddangos straeon real, straeon nad ydynt yn cael eu hadrodd yn nodweddiadol, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni a byddant yn gweithredu fel mecanwaith ategol defnyddiol wrth gael gwared ar lawer o'r anghydraddoldebau parhaus yn y gofod datblygu athletwyr.

Sylw i: Actif North Wales

Mae'r bartneriaeth Chwaraeon 'fyw' gyntaf yng Ngogledd Cymru wedi penodi tîm canolog i'w llywodraethu ac arwain darpariaeth strategol ar draws y rhanbarth eleni. Mae'r tîm yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Rheolwr Partneriaeth a Swyddog Cefnogi Busnes. Yn eu tro maent yn cael eu cefnogi gan Fwrdd Partneriaeth seiliedig ar sgiliau gyda chynrychiolaeth o blith rhanddeiliaid allweddol yng Ngogledd Cymru, a Chadeirydd Annibynnol.

Wedi'i hailfrandio fel "Actif Gogledd Cymru", mae'r bartneriaeth wedi datblygu strategaeth newydd drwy ymgysylltu ar draws y rhanbarth, gyda ffocws cadarnach ar i dimau datblygu chwaraeon partner fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws Gogledd Cymru, a meithrin perthnasoedd newydd gyda phartneriaid a gomisiynir. Mae hyn yn cynnwys strategaeth farchnata a chyfathrebu i gryfhau ymgysylltiad rhanddeiliaid ac archwilio cyfleoedd masnachol newydd.

Rydym yn edrych ymlaen at sefydlu pob un o'r pum rhanbarth, gan adlewyrchu rhwydwaith amrywiol a ffyniannus o bartneriaethau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cynllun Hamdden Actif, 60 +

Cafodd y Cynllun Hamdden Actif, 60+, ei ddatblygu ymhellach eleni yn dilyn gwerthusiad annibynnol a wnaeth argymhellion ar gyfer cyfnod Cynllun Gweithredu Pwysau Iach, Cymru Iach 2022-24. Nod y cynllun yw cynnig darpariaeth hamdden genedlaethol i bobl dros 60 oed i annog gweithgarwch corfforol a dewisiadau ffordd o fyw iach; dull wedi'i dargedu o leihau anghydraddoldebau iechyd ac ynysu cymdeithasol.

Yn 2022, amlygodd cyflwyno plattform adrodd newydd newid yn y ffordd y casglwyd data ar draws yr holl awdurdodau lleol, gyda manteision casglu gwybodaeth benodol, y gobeithir y bydd yn helpu awdurdodau i ddeall pa ymgysylltu a gweithgareddau sydd wedi bod yn llwyddiannus. Bu cynnydd sylweddol hefyd mewn ymgysylltu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol wrth gydlyn mentrau eraill fel y Cynllun Cyfeirio at Ymarfer Cenedlaethol (NERS), y Fenter Nofio Am Ddim (FSI), Presgripsiynau Cymdeithasol a rhwydweithiau Heneiddio'n Dda yn ogystal â darpariaeth 60+ leol arall i darparu dewis **integredig** o gyfleoedd ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol

Yn dilyn yr etholiadau i'r Senedd yn 2021, roedd [rhaglen lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru yn addo gwireddu'r ymrwymiad i greu ysgolion bro ac archwilio diwygio'r diwrnod ysgol. Buom yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Tîm Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Addysg Awdurdodau Lleol (Aelodau ADEW), Penaethiaid a Thimau Datblygu Chwaraeon Awdurdodau Lleol, i wireddu prosiect yn edrych ar agor cyfleusterau a chyflwyno gweithgareddau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Canfu'r prosiect fod angen i'r ddarpariaeth unigol fod yn unigryw i'r ysgol a'r gymuned a bod ymgynghori â disgyblion a'r gymuned yn allweddol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion. O ran cyllid, rhaid ystyried cynaliadwyedd a chynllunio ar ei gyfer o'r dechrau un, a'i integreiddio mewn cyllidebau, yn ogystal ag ystyried cyllid refeniw ar gyfer costau staffio neu hyfforddi.

Mae gwerthusiad llawn i'w weld ar ein gwefan ni <https://www.sport.wales/research-and-insight/active-education-beyond-the-school-day/programme-evaluation/>

Datblygu a Lansio Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol erbyn 2030

Rydym yn falch ein bod ni, drwy ein Llythyr Cylch Gwaith, yn gallu cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Yn wir, mewn ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, mae Chwaraeon Cymru wedi nodi cynaliadwyedd amgylcheddol fel blaenoriaeth yn ei gynllun busnes. Er mwyn datblygu ein

cynlluniau i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, comisiynodd Chwaraeon Cymru arbenigedd yr Ymddiriedolaeth Garbon i helpu i ddeall ein llinell sylfaen o ran allyriadau carbon ac i ddatblygu blaengynllun i leihau allyriadau. Yn dilyn cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid allweddol, datblygwyd Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol drafft. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ein gweithredoedd datgarboneiddio a bioamrywiaeth ar bum thema allweddol: -

- Ein Pobl
- Ein Partneriaid
- Ein Caffael
- Ein Lleoedd
- Ein Prosesau

Un o themâu allweddol y Cynllun yw'r cyfleoedd **cydweithredu** i weithio gyda sefydliadau eraill (Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, partneriaid o fewn y Gynghair Chwaraeon, yr Amgylchedd a Hinsawdd, Dosbarthwyr y Loteri, Cyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaid Cenedlaethol eraill).

Mae'r Cynllun wedi cael ei gyhoeddi ar [wefan Chwaraeon Cymru mewn fformat hygyrch](#). O ystyried cyflymder y newid yn y maes hwn, mae Chwaraeon Cymru yn rhagweld y bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y datblygiadau diweddaraf yn cael eu cynnwys yn y camau gweithredu.

Dear Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee,

We are writing to you to express the importance of including specific financial support for disabled people in the upcoming 2024-2025 budget.

We have all felt the effects of the cost-of-living crisis, but we have not all experienced it equally. We have found that there are disabled people across Wales, forced to live in awful circumstances due to the twin problems of poverty and the cost-of-living crisis. A fifth of the population of Wales is disabled¹ and households containing at least one disabled person is more likely to be living in poverty,² disabled people are more likely to be economically inactive or if in work, that work is more likely to be insecure and low wage.³ Poverty has long been a problem for disabled people living in Wales, but the rising cost-of-living is forcing people into worse and worse circumstances.

The 2023-2024 budget did not provide specific support for disabled people during the crisis and our findings from our report “Barely Surviving the impact of the cost-of-living crisis on disabled people” displays some of the consequences. We found that the financial support available was short-sighted, the cost-of-living payments supporting people to pay one month of bills, but nothing beyond. Disabled people often have more essential costs than non-disabled people, this extra cost of disability has not been accounted for, beyond the support already available.

The consequences are severe. Disabled people reported only being able to eat one meal a day, having to let go of support workers or stop going to vital therapies because of cost, being unable to run access equipment due to costs, in some cases losing their lives.

¹ Office of National Statistics, Census 2021, “Disability, England and Wales: Census 2021”, 19th January 2023, <<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#how-disability-varied-across-england-and-wales>>

² Joseph Roundtree Foundation, “UK Poverty 2023 – The essential guide to understanding poverty in the UK”, 20th January (2023), p65, <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/uk_poverty_2023_-_the_essential_guide_to_understanding_poverty_in_the_uk_0_0.pdf>

³ Department for Work and Pensions, “Employment of disabled people 2022”, UK Government, 26th January (2023), <https://www.gov.uk/government/statistics/the-employment-of-disabled-people-2022/employment-of-disabled-people2022#labour-market-status>

These have been difficult years to be a disabled person in Wales. We have been living through a mass-disabling coronavirus pandemic, in which disabled people have been disproportionately harmed. Disabled people have disproportionately been impacted by over a decade of austerity policies and with severe changes to their benefit entitlement from the UK Government, this period of financial uncertainty and continued poverty does not look likely to change.

We are calling for the Budget to include a series of recommendations and for certain questions to be asked of what we need and what is missing.

- The Welsh Government, health services and local authorities in Wales should provide specific support for the running and maintenance of disability related equipment, to ensure that all disabled people are not financially impacted by their need to use certain equipment.
- Welsh Government to urgently review its policy on social care charges, including whether the disregards for disability related expenditure are adequately protecting disabled people on low incomes with high costs.
- Urgent action to recognise and tackle mental health issues amongst disabled people, including pathways to accessing appropriate mental health support whether from social care, other areas of the health service and/or through peer support, such as from disabled people's organisations.
- Food subsidies should be considered to reduce the cost of food in shops. To supplement this, the Welsh Government and Local Authorities should provide support to and nurture the creation of community food schemes. These schemes should include accommodation for dietary requirements and include options for access requirements.
- Public transport, such as buses and trains, should be taken under public ownership to be delivered as a public service, including measures such as reduced ticket prices with the eventual goal to make public transport in Wales free.
- Provision of resources and capacity building measures to ensure the establishment and sustainability of at least one Disabled

People's Organisation in every local authority, to support coproduction of policies and services with public bodies, including peer support schemes for disabled people

- Commitment from the Welsh Government to prioritise tackling the extra cost of disability

For more information, please contact

megan.thomas@disabilitywales.org. You can find our full report here:
<https://www.disabilitywales.org/wp-content/uploads/2023/07/Barely-Surviving-cost-of-living-report.pdf>

Kind regards,

Megan Thomas

Policy and Research Officer

Disability Wales

Prin yn Goroesi: Effaith yr Argyfwng Costau Byw ar Bobl Anabl yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn ymroddedig i gofio'r bobl anabl sydd wedi colli eu bywydau yn ystod yr argyfwng costau byw.

Cyflwyniad

Mae wedi bod yn anodd dianc rhag yr argyfwng costau byw, ond mae realiti hyn i lawer o bobl anabl ledled Cymru wedi bod yn drychinebus. Efallai y bydd yr adroddiad hwn yn anodd i'w ddarllen i rai, ond dydyn ni ddim yn ymddiheuro amdano gan ein bod yn credu ei fod yn un angenrheidiol. Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl anabl yng Nghymru a ledled y DU wedi cael cam systematig gan eu llywodraethau ac mae ein canfyddiadau'n dangos bod ymddiriedaeth yn y Llywodraeth ar lefel hynod isel sy'n ddealladwy.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n adrannau i adlewyrchu'r arolwg a ddosbarthwyd. Gan ddechrau gydag effaith y cynnydd yng nghost biliau ynni lle gwelsom fod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi profi cynnydd mawr mewn biliau a bod llawer ohonynt yn methu â thalu eu costau o ganlyniad. Rydyn ni'n symud nesaf at effaith costau cynyddol mewn meysydd eraill, gan ganolbwyntio'n bennaf ar drafnidiaeth a bwyd, lle gwelwn nad yw pobl anabl yn gallu fforddio tri phryd y dydd na'u diet sy'n gysylltiedig â nam ac yn profi unigedd cymdeithasol cynyddol oherwydd diffyg mynediad at drafnidiaeth. Yna, rydyn ni'n ystyried yr effaith ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles. Mae'r adran hon yn gweld rhai o'n canfyddiadau mwyaf pryderus ynghylch argyfwng parhaus mewn iechyd meddwl ymhlith pobl anabl sydd heb ei drin o hyd.

Mae'r argyfwng costau byw wedi achosi niwed sylweddol i lawer o bobl anabl ledled Cymru. Mae'r mesurau cymorth a roddwyd ar waith wedi bod yn annigonol i ddelio â maint y niwed mae'r argyfwng wedi'i achosi. Mae'r ymatebion tymor byr wedi bod yn annigonol ar gyfer argyfwng hirdymor. Ychydig iawn o gefnogaeth rydyn ni'n ei weld hefyd ar gyfer effeithiau cysylltiedig eraill yr argyfwng, megis mesurau i leihau cost trafndiaeth gyhoeddus, bwyd, a chymorth iechyd meddwl i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu'r costau.

Methodoleg

Yn unol â model cymdeithasol anabledd ac athroniaeth ein sefydliad, mae'r adroddiad hwn yn cael ei lywio'n bennaf gan brofiadau uniongyrchol pobl anabl sy'n byw yng Nghymru. Fe wnaethom ni gynnal arolwg hunan-ddethol a oedd ar gael yn Saesneg, Saesneg Hawdd ei Ddeall, testun plaen Saesneg, Cymraeg, a thestun plaen Cymraeg. Cawsom 74 o ymatebion i'n harolwg ar draws pob fformat; fodd bynnag, ni chawsom unrhyw ymatebion i'n harolwg Hawdd ei Ddeall. Nododd 71 o ymatebwyr eu bod nhw'n berson anabl, un ymatebydd nad yw'n anabl ond yn ateb ar ran person anabl a nododd un person nad yw'n anabl a'i fod yn ateb drosto ei hun. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn, felly ni fydd pob ffigur yn adio i 74. Roedd y gyfradd ymateb uchaf yn ôl awdurdod lleol o blith trigolion Cyngor Dinas Caerdydd, ac roedd yr ail nifer fwyaf o ymatebwyr wedi'u lleoli yng Ngwynedd. Roedd yr holl ymatebwyr wedi'u lleoli yng Nghymru.

Fe wnaethom hefyd gynnal dau grŵp ffocws ar-lein hunan-ddethol wedi'u hanelu at bobl anabl. Mynychodd 25 o unigolion y grwpiau ffocws yn gyffredinol, mae'n debygol bod rhai unigolion wedi mynychu grŵp ffocws ac wedi cwblhau'r arolwg. Fe wnaethom hefyd gynnal cyfarfod rhwydwaith o sefydliadau pobl anabl ac rydyn ni wedi cynnwys peth o'r adborth hwnnw yn yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio canfyddiadau arolwg blaenorol gan Anabledd Cymru ar yr argyfwng costau byw a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2022. Cafodd yr arolwg hwn 39 o ymatebion. Mae ein data sylfaenol yn cael ei ategu gan ymchwil eilaidd o ffynonellau allweddol eraill.

Cyd-destun

Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl o fewn eu poblogaeth na gweddill y DU, mae 28% o boblogaeth Cymru yn anabl, o'i gymharu â 22% yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a 21% yn yr Alban. Mae pobl anabl

ledled y DU hefyd yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar a bod â chyfradd uwch o fyw mewn tlodi.¹²³

Dangosodd yr Adroddiad Drws ar Glo ar effaith Covid-19 ar bobl anabl yng Nghymru gysylltiad clir rhwng canlyniadau a thlodi, amddifadedd cymdeithasol, manteision y wladwriaeth, tai a phrofiadau o waith a chyflogaeth.⁴

Mae pobl anabl yn arbennig yn fwy tebygol o brofi tlodi tanwydd, yn 2021 roedd 900,000 o bobl anabl yn byw mewn tlodi tanwydd, fe wnaeth amcangyfrifon Scope a National Energy Action godi hynny i 2.1 miliwn o bobl pe bai biliau'n cyrraedd £3,000 y flwyddyn.⁵

Mae'r hyn y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel “cost ychwanegol anabledd” yn cyfeirio at gostau unigryw a brofir gan bobl anabl neu gostau sy'n fwy hanfodol i bobl anabl.⁶ Mae gwres a thrydan hefyd yn ddwy gost y gallai fod angen i bobl anabl eu bodloni i reoli eu namau. Gall rhai namau gael eu sbarduno gan dymheredd eithafol neu angen defnyddio offer sy'n defnyddio cryn dipyn o drydan. Mae'r treuliau hyn sy'n gysylltiedig â nam yn hanfodol i'r person anabl, felly mewn rhai achosion, mae'r taliadau sylfaenol mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud yn uwch o gymharu â pherson nad yw'n anabl neu byddai'n rhaid iddynt leihau gwariant mewn meysydd hanfodol eraill, yn enwedig bwyd a thrafnidiaeth, i dalu'r costau hyn.

Adran Un: Effaith Cynnydd mewn Biliau Ynni, Trydan a Dŵr

Profodd mwyafrif sylweddol y bobl anabl a ymatebodd i'n harolwg gostau cynyddol i'w gwres, trydan a dŵr. O'r 74 o ymatebwyr, profodd 89%

¹ Sefydliad Joseph Roundtree, “Tlodi y DU 2023 — Y canllaw hanfodol i ddeall tlodi yn y DU”, 20 Ionawr (2023), t65, https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/uk_poverty_2023_-_the_essential_guide_to_understanding_poverty_in_the_uk_0_0.pdf

² Esme Kirk-Wade, “Ystadegau anabledd y DU: Mynychder a phrofiadau bywyd”, Briffio Ymchwil, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 29 Gorffennaf (2022), t16, <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9602/CBP-9602.pdf>

³ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, “Cyflogaeth pobl anabl 2022”, Llywodraeth y DU, 26 Ionawr (2023), <https://www.gov.uk/government/statistics/the-employment-of-disabled-people-2022/employment-of-disabled-people-2022#labour-market-status>

⁴ Dr Debbie Foster, “Drws ar glo: rhyddhau bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru y tu hwnt i COVID-19”, Llywodraeth Cymru, 19 Ebrill (2022), <https://www.gov.wales/locked-out-liberating-disabled-peoples-lives-and-rights-wales-beyond-covid-19-html>

⁵ Scope, “Elusennau'n rhybuddio y bydd nifer yr aelwydydd anabl sydd mewn tlodi tanwydd i ddyblu erbyn diwedd y flwyddyn”, 17 Mawrth (2022), <https://www.scope.org.uk/media/press-releases/fuel-poverty-set-to-double/>

⁶ Scope, “Tag Pris Anabledd 2023: cost ychwanegol anabledd”, (2023), <https://www.scope.org.uk/campaigns/extra-costs/disability-price-tag-2023/#What-needs-to-change>

gostau uwch, mae hyn yn ostyngiad bach ers y flwyddyn flaenorol lle profodd 92% o'r ymatebwyr gostau uwch, fodd bynnag, mae'n berthnasol bod gan arolwg 2022 lawer llai o gyfranogwyr.

Pan ofynnwyd iddo roi rhagor o fanylion, dywedodd un person anabl wrthym fod "Gwresogi wedi cynyddu i'r graddau nad ydym yn ei droi ymlaen, dim ond gwisgo mwy o ddillad."⁷ Mae hwn yn ymateb cyffredin ar draws ymatebion yr arolwg ac o fewn y grwpiau ffocws, dywedodd pobl anabl eu bod nhw'n defnyddio strategaethau ymdopi fel gwisgo mwy o ddillad, troi gwres ymlaen ar gyfer amseroedd strategol drwy gydol y dydd, neu droi at orfod ceisio dioddef yr oerfel.

Nododd yr ymatebwyr eu bod nhw eisoes wedi bod yn ymladd i gael arian cyn yr argyfwng, gan ei gwneud yn anodd torri treuliau mewn meysydd eraill i wneud iawn am gynnydd mewn biliau. Un pryder allweddol a amlygwyd fel mater allweddol oedd nad yw cyflogau a budd-daliadau fel Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibynnol Personol yn codi yn unol â chwyddiant ⁸ "mae popeth yn mynd yn ddrytach. Mae costau ynni, biliau'r cartref, prisiau bwyd, costau teithio ac eto cyflogau, ac mae PIP yn aros yr un fath na allaf gadw i fyny."⁹

Tynnwyd sylw hefyd at ansicrwydd ynghylch cynnydd mewn biliau yn y dyfodol. "Yr hyn sy'n waeth yw nad ydym ni'n gwybod beth i'w ddisgwyl nesaf, faint yn fwy y bydd costau'n cynyddu."¹⁰ Nododd rhai, hyd yn oed gyda thorri treuliau, eu bod nhw'n poeni am faterion ariannol yn y dyfodol neu gostau yn cynyddu ymhellach.

Dywedodd 58 o'r 74 a ymatebodd eu bod wedi gorfod cwtogi ar y costau hyn. Pan ofynnwyd iddynt ddarparu rhagor o fanylion dywedodd ymatebwyr eu bod nhw wedi gorfod gwerthu eu heiddo i dalu eu biliau, roedd yn rhaid i rai leihau eu defnydd o geir yn sylweddol. Dywedodd un ymatebydd bod yn rhaid iddynt newid yr hyn yr oedden nhw'n defnyddio eu PIP ar ei gyfer, gan newid o'i ddefnyddio ar gyfer therapïau penodol i'w ddefnyddio i oroesi. Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod nhw'n gorfod defnyddio presgripsiynau sbectol hen gan na allent fforddio biliau a diweddarau eu sbectol.¹¹

⁷ Ymatebydd Arolwg Anabledd Cymru (2023)

⁸ Ers cyhoeddi'r arolwg, gwnaed cyhoeddiad i godi'r manteision hyn yn unol â chwyddiant.

⁹ Ymatebydd Arolwg Anabledd Cymru (2023)

¹⁰ Ymatebydd Arolwg Anabledd Cymru (2023)

¹¹ Ymatebydd Arolwg Anabledd Cymru (2023)

Noder: hyn i'w gynnwys mewn blwch ar wahân yn nyluniad yr adroddiad. Astudiaeth Achos: “Mae pris popeth wedi saethu i fyny, ond yr arian rwy'n byw arno - y cyfan rwy'n ei gael yw budd-daliadau anabledd: PIP ac ESA - nid yw hwnnw wedi codi. Cyn yr argyfyngau, pan aeth fy olew yn y tanc i hanner gwag, gallwn fforddio ychwanegu ato ar unwaith. Am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r tanc wedi bod yn wag yn fwy nag y mae wedi'i lenwi. Rwy'n eistedd yma mewn cartref rhewllyd ar hyn o bryd, oherwydd bod fy olew wedi rhedeg allan, ac nid oedd gen i'r arian i brynu mwy. Roedd rhaid i mi hefyd gael peiriannydd olew i mewn, i drwsio'r boeler, oherwydd ei fod wedi rhedeg yn sych! Rwy'n dioddef o gryd cymalau, a lluo o afiechydon eraill sy'n seiliedig ar imiwnedd, ac os byddaf yn oer, mae'r boen yn dwysáu - mae fy nghartref yn rhewllyd, gan fy mod yn byw mewn bwthyn carreg 300 oed.”

Mae tlodi tanwydd ymhlith pobl anabl yn broblem oedd yn bodoli cyn yr argyfwng hwn, amcangyfrifodd National Energy Action fod 900,000 o bobl anabl yn byw mewn tlodi tanwydd cyn yr argyfwng.¹² Nododd ymatebwyr i'r arolwg a chyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fod y broblem sydd eisoes yn bodoli gyda phris tanwydd ac ansicrwydd ariannol wedi gwaethygu effaith yr argyfwng. Prin y gallai llawer o bobl anabl fforddio cynhesu eu cartrefi o'r blaen, nawr mae'n broblem i nifer uwch o bobl.

Mae pryder sylweddol wedi bod ynghylch pobl sy'n byw ar fesuryddion talu ymlaen llaw. Mae'r mesuryddion hyn yn “fath o fesurydd ynni domestig sy'n gadael i chi dalu am ynni cyn i chi ei ddefnyddio. Gelwir y math hwn o fesurydd hefyd yn fesurydd talu wrth fynd.”¹³ Mae cwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw yn gwsmeriaid sydd ar incwm anghymesur o isel, ond mae mesuryddion talu ymlaen llaw yn aml yn ddrutach. Canfu National Energy Action fod pobl sy'n byw gyda mesuryddion talu ymlaen llaw mewn llawer mwy o berygl o gael eu datgysylltu na'u cymheiriaid.¹⁴ Mae Anabledd Cymru yn falch o weld gweithredu gan Ofgem ar osod y mesuryddion ymlaen llaw hyn dan

¹² Scope, “Elusennau'n rhybuddio y bydd nifer yr aelwydydd anabl sydd mewn tlodi tanwydd i ddyblu erbyn diwedd y flwyddyn”, 17 Mawrth (2022), <https://www.scope.org.uk/media/press-releases/fuel-poverty-set-to-double/>

¹³ Ofgem, “Esbonio mesuryddion talu ymlaen llaw”, <https://www.ofgem.gov.uk/information-consumers/energy-advice-households/check-prepayment-meter-rules>

¹⁴ National Energy Action, “The hardest hit: Impact of the energy crisis UK FUEL POVERTY MONITOR 2021-2022”, 17 Ionawr (2023), t27, https://www.nea.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/3830_NEA_Fuel-Poverty-Monitor-Report-2022_V2-1.pdf

orfod, ond rhaid gwneud mwy i sicrhau nad yw cwsmeriaid rhagdalau'n cael eu cosbi'n ariannol am ddefnyddio'r math hwn o fesurydd.¹⁵

Mae rhai camau wedi'u cymryd ar filiau ynni a biliau eraill y cartref. Roeddem ni'n falch o'r tariffau a osodwyd ar gwmnïau ynni ac i weld rhywfaint o gymorth fel Lwfans Tanwydd Gaeaf a'r taliadau cost byw untro o £150. Fodd bynnag, fel y trafodir yn fanylach yn adran pedwar, mae hon yn broblem hirdymor na ellir mynd i'r afael â hi yn llawn drwy fesurau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi pobl yn y tymor byr.

Adran Dau: Tai, Trafnidiaeth a Threuliau Eraill.

Mae Anabledd Cymru yn credu bod yr argyfwng hwn yn sylweddol fwy cymhleth na dim ond cost gynyddol biliau, adlewyrchwyd y gred hon yn ymatebion pobl anabl sy'n byw yng Nghymru. Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â rhai o'r costau eraill hyn, megis cost cludiant, bwyd a gweithgareddau hamdden, a'r effaith ar bobl anabl.

Fe wnaethom ganfod bod pobl anabl yng Nghymru yn gwario mwy yn gyson ar draws treuliau sy'n gysylltiedig â Thai, Trafnidiaeth a Nam. Dywedodd 61 o bobl anabl wrthym eu bod nhw wedi gwario mwy ar drafnidiaeth a dywedodd 48 o bobl anabl wrthym fod yn rhaid iddyn nhw wario mwy ar dreuliau cysylltiedig â nam. Nododd ymatebwyr y cynnydd ym mhrisiau tanwydd car, a thocynnau cludiant fel rhai o'r prif gyfranwyr tuag at gostau teithio cynyddol. Nododd rhai ymatebwyr bod treuliau sy'n gysylltiedig â nam yn gostau hanfodol iddyn nhw felly roedd yn rhaid iddynt aberthu mewn manau eraill i dalu'r costau hyn. Rhannwyd costau tai yn gyfartal rhwng y rhai a oedd wedi neu heb wario mwy o arian ar eu costau tai. I'r rhai a oedd wedi, roedd llawer yn berchen ar eu cartrefi eu hunain ac yn ei briodoli i forgeisi cynyddol a'r costau ychwanegol o orfod gwneud addasiadau i'w cartrefi.

Gofynnodd Anabledd Cymru a oedd yr ymatebwyr wedi cwtogi ar ystod o dreuliau. Roedd trafndiaeth yn faes nodweddiadol i wneud toriadau gyda 53 o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cwtogi ar drafnidiaeth. Mae hyn yn bryder, yn enwedig o ystyried bod ymatebwyr wedi dweud bod gorfod gwneud y toriadau hyn wedi eu gadael yn fwyfwy ynysig ac yn methu â gweld anwyliaid. Fe wnaethant nodi eu bod nhw wedi ei chael hi'n anodd fforddio mynychu apwyntiadau meddygol a chael mynediad at

¹⁵ National Energy Action, "National Energy Action: new prepayment meter code of practice is "much needed" but many still face "uncertainty"', 18 Ebrill, (2023), <https://www.nea.org.uk/news/national-energy-action-new-prepayment-meter-code-of-practice-is-much-needed-but-many-still-face-uncertainty/>

wasanaethau pwysig oedd yn gofyn am gludiant. Mae Anabledd Cymru hefyd yn pryderu bod y toriadau hyn wedi gadael mesurau cymorth eraill yn llai effeithiol, pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi defnyddio 'banc cynnes', dywedodd rhai ymatebwyr wrthym nad oeddent wedi gallu defnyddio banc cynnes oherwydd cost cludiant i gyrraedd yno.

Roedd bwyd yn faes nodweddiadol arall lle roedd ymatebwyr yn torri'n ôl. Dywedodd 50 o ymatebwyr eu bod nhw wedi cwtdogi ar eu costau bwyd ac roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y grwpiau ffocws. Dywedodd ymatebwyr fod cost bwyd wedi eu gadael ond yn gallu bwyta 1 neu 2 bryd y dydd ac yn ei gwneud yn anodd bwyta eu diet gofynnol e.e., heb glwten.

Dau o'r meysydd mwyaf tebygol o dorri gwariant oedd ar ddillad a gweithgareddau hamdden. Roedd 56 o ymatebwyr wedi torri gwariant ar ddillad ac roedd 58 o ymatebwyr wedi cwtdogi ar weithgareddau hamdden. Er na chafodd dillad eu crybwyll yn benodol, dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod yn rhaid iddynt leihau gweithgareddau hamdden i fforddio eu prif dreuliau. Mae llawer o bobl anabl wedi dweud wrthym nad ydyn nhw wedi gallu gwneud y gweithgareddau sy'n dod â llawenydd neu foddhad iddynt ac o ganlyniad maen nhw wedi profi gostyngiad sylweddol yn ansawdd eu bywyd, un person yn nodi eu bod "newydd oroesi" yn lle byw yn llawn.¹⁶

Roedd arwahanrwydd cymdeithasol yn thema gyffredin trwy gydol yr adran hon o ymchwil. Roedd y cyfuniad o ddiffyg mynediad at drafnidiaeth, tai addas a gorfod cwtdogi ar dreuliau nad oedd yn gysylltiedig â hanfodion angenrheidiol i oroesi, wedi golygu bod llawer o bobl anabl yn cael eu hynysu oddi wrth eu cymunedau a'u hanwyliaid.

Er mai'r gyfran fwyaf o ymatebwyr o hyd, y maes lleiaf tebygol i'w dorri oedd treuliau cysylltiedig â nam. Roedd 32 o ymatebwyr wedi cwtdogi ar dreuliau cysylltiedig â nam, fel y crybwyllwyd yn y paragraff blaenorol, mae treuliau sy'n gysylltiedig â nam yn aml yn gost hanfodol ychwanegol i bobl anabl na ellir dorri'n ôl arnynt yn aml, neu unwaith y byddant yn cael eu cwtdogi byddant yn effaith eithafol ar eu bywyd. Mae enghreifftiau o gost sy'n gysylltiedig â nam yn cynnwys costau rhedeg offer, dietau penodol a chostau cludiant ychwanegol. Dywedodd un ymatebydd na allent fforddio eu gweithiwr cymorth mwyach oherwydd yr argyfwng, roedd un ymatebydd na allai fforddio rhedeg ei offer mynediad, a

¹⁶ " Dim ond goroesi ar hyn o bryd, dydw i ddim yn meddwl fy mod i na'm teulu wedi 'byw' ymhen ychydig." Ymatebydd Arolwg Anabledd Cymru (2023)

dywedodd ymatebydd arall wrthym ei fod yn teimlo fel y byddai'n well eu byd mewn carchar nag yn eu hamgylchiadau presennol

Mae Anabledd Cymru wedi dychryn gyda thystiolaeth nad yw rhai pobl anabl bellach yn gallu fforddio costau eu gweithwyr cymorth oherwydd yr argyfwng. Yng Nghymru, uchafswm tâl gofal wythnosol yw £100 i bobl sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol gan eu hawdurdod lleol.¹⁷ O dan gytundeb Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, gwnaed ymrwymiad i gyflwyno Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pan fo angen.¹⁸ Hyd yma, nid oes amserlen ar gyfer gweithredu gofal a chymorth am ddim.

Mae Anabledd Cymru yn pryderu am effaith hirdymor y costau cynyddol hyn a'r diffyg cymorth wedi'i dargedu sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Nid yw'r dystiolaeth hon yn bodoli ar ei phen ei hun ac mae pryderon ynghylch pobl anabl yng Nghymru yn gorfod cwtogi ar neu fyw heb yn yr ardaloedd hyn wedi cael eu hailadrodd gan sefydliadau ledled Cymru.¹⁹ Wrth i gostau barhau i fod yn uchel, rhaid i ni weld camau cyflym a phendant i fynd i'r afael â hyn.

Adran Tri: Effaith ar Les, Iechyd Corfforol a Meddyliol.

Yn yr adroddiad hwn mae cyfeiriadau at hunanladdiad a hunan-niweidio, rydyn ni wedi cynnwys hyn gan ein bod yn credu ei bod yn bwysig deall difrifoldeb effaith yr argyfwng ar bobl anabl, ond gall yr adran hon achosi gofid i rai darllenwyr.

Rydyn ni wedi canfod bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith ddofn ar les, iechyd corfforol a meddyliol y bobl anabl y buom yn siarad â nhw. Amlygwyd hyn fel pryder yn ein hymchwil flaenorol ar y pwnc hwn, o'r 39 a ymatebodd i'n harolwg yn 2022, roedd 82% wedi nodi ei fod wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl.²⁰

Ni ellir tanddatgan eithafrwydd effaith yr argyfwng hwn ar rai o'n hymatebwyr. Adroddodd ymatebwyr lluosog eu bod wedi profi syniadaeth hunanladdol ac yn sôn am feddyliau am ddod â'u bywydau i ben. Dywedodd un ymatebydd bod ffrind anabl wedi cymryd ei fywyd ei

¹⁷ "Codi tâl am ofal cymdeithasol", Llywodraeth Cymru, <https://www.gov.wales/charging-social-care>

¹⁸ "Y Cytundeb Cydweithredu 2021", Llywodraeth Cymru, 1 Rhagfyr (2021), t3,

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/cooperation-agreement-2021.pdf>

¹⁹ Sefydliad Bevan, "Cipolwg ar dlodi yng Ngaeaf 2023", Sefydliad Bevan, 2 Chwefror (2023),

<https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/02/Snapshot-of-poverty-in-winter-2023.pdf>

²⁰ Arolwg Anabledd Cymru (2022)

hun ar ôl teimlo fel baich ariannol ar ei deulu.²¹ Soniodd ymatebwyr anabl yn benodol am ansicrwydd ariannol a theimladau o anobaith ynghylch yr argyfwng fel straen i'w hiechyd meddwl. Roedd hyn yn berthnasol yn gyson i bobl anabl â chyflyrau iechyd meddwl a oedd eisoes yn bodoli a phobl anabl a ddatblygodd gyflyrau iechyd meddwl, fel gorbryder, oherwydd yr argyfwng.

Mae llawer o ymatebwyr wedi nodi bod eu iechyd corfforol yn gwaethygu. Dywedodd un ymatebydd eu bod yn profi pyliau oedd yn gwaethygu o asthma a phryder oherwydd nad oeddent yn cadw ei gartref yn gynnes.²² Mae mwy o boen wedi bod yn bryder iechyd corfforol cyffredin o'r argyfwng. Mae hyn wedi'i briodoli yn bennaf i ddiffyg gallu fforddio gwres digonol ar gyfer cartrefi.

Mae llesiant hefyd wedi cael ei effeithio'n fawr. O blith ein hymatebwyr, dywedodd 80% ei fod yn cael effaith negyddol ar eu lles. Roedd y prif themâu yn ystyried bod croestoriad iechyd corfforol a meddyliol yn gwaethygu a mwy o unigedd. Dywedodd llawer fod gorfod aberthu costau cludiant neu eraill yn gorfod aberthu eu costau cludiant wedi eu hynysu oddi wrth eu hanwyliaid a'u gorfodi i fethu apwyntiadau ysbyty.²³ Mae hyn hefyd yn broblem benodol mewn cartrefi preswyl lle nad oes llawer o gymorth i'r person anabl allu cefnogi ymwelwyr yn ariannol.

Canfu ein hymchwil fod 52 o'r 74 o ymatebwyr wedi nodi bod yr argyfwng wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol, nododd 58 o ymatebwyr fod yr argyfwng wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl a nododd 59 fod eu lles wedi cael ei effeithio. Rydym yn gweld mai iechyd corfforol sydd wedi cael ei effeithio leiaf, er bod y lefelau'n uchel ar gyfer y tri. Hoffem bwysleisio, hyd yn oed os yw'r effaith ar iechyd meddwl a lles yn fwy hollbresennol, bod yr effaith unigol ar yr ymatebwyr anabl yn hynod bwysig.

Mae diffyg cefnogaeth gydgysylltiedig rhwng y gwasanaeth iechyd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol a darparwyr cymorth eraill. Rydym yn pryderu bod y dystiolaeth yn cyfeirio at hyn gan arwain at bobl anabl yn

²¹ "Rwyf wedi colli ffrind agos anabl yn ddiweddar oherwydd hunanladdiad gan na allai ymdopi â'r costau yr oedd yn eu hachosi i'w theulu mwyach. Nid oedd yn teimlo ei bod yn cael ei gweld fel unigolyn yn ei rhinwedd ei hun dim ond oherwydd ei bod yn fam ac yn wraig. Mae ei gŵr a'i dau blentyn ifanc wedi'u difetha." Ymatebydd arolwg Anabledd Cymru, (2023).

²² "Rwy'n cael mwy o byliau o asthma a heintiau ar y frest oherwydd oerfel gan ei fod ond yn fforddiadwy i roi'r gwres ymlaen am 1-2 awr gyda'r nos.", ymatebydd arolwg Anabledd Cymru, (2023).

²³ "Wedi methu apwyntiadau ysbyty a pheidio â mynd am gymorth meddygol pan fyddaf yn methu fforddio gwneud hynny (rhy ifanc i gael tocyn bws ac yn methu fforddio gyrru mwyach)" Atebydd arolwg Anabledd Cymru (2023)

llithro drwy'r rhwyd ac yn cael trafferth ymdopi ar eu pennau eu hunain. Roedd modd osgoi'r profiadau ein hymatebwyr yn llwyr, rhaid i hyn ddod yn flaenoriaeth genedlaethol i'r Senedd.

Adran Pedwar: Cefnogaeth

Un neges allweddol o'n hymchwil yn 2022 oedd y diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer yr argyfwng costau byw. Yn 2023 mae hyn yn parhau i fod yn broblem. O'r 74 a ymatebodd i'r arolwg, roedd 23 o ymatebwyr yn teimlo eu bod nhw wedi cael gwybod am yr opsiynau cymorth sydd ar gael. Roedd 11 o bobl anabl yn ansicr ac nid oedd 30 yn teimlo'n wybodus gydag 8 o bobl ddim yn gwybod am unrhyw opsiynau cymorth sydd ar gael o gwbl.

Roedd nifer crai y bobl anabl a oedd wedi derbyn cymorth wedi cynyddu yn yr arolwg diweddaraf, o 9 o'r 39 a ymatebodd i'r arolwg cyntaf ar ôl cael cymorth effeithiol yn cynyddu i 14 o'r 74 o ymatebwyr yn yr arolwg diweddaraf. Mae nifer yr ymatebwyr oedd yn cael cymorth yn yr arolwg diweddaraf yn ganran is o gyfanswm nifer yr ymatebwyr nag yn y gorffennol ond o ystyried maint y samplau llai nid ydym yn priodoli gormod o arwyddocâd i hyn.

Pan ofynnir i ni am rai opsiynau cymorth penodol, rydyn ni'n gweld rhywfaint o welliant.

Pan ofynnwyd am Lwfans Tanwydd Gaeaf yn 2023 o'i gymharu â 2022. Yn y ddwy flynedd, rydyn ni'n gweld lefel uchel o wybodaeth o gymharu â'r meysydd eraill yr holwyd amdanynt. Yn 2023 roedd 91% o'r 74 a ymatebodd wedi clywed am Lwfans Tanwydd Gaeaf o'i gymharu â 7% o bobl nad oedd wedi clywed amdano. Yn 2022 roedd 85% o'r ymatebwyr wedi clywed am Lwfans Tanwydd Gaeaf o'i gymharu â 6% nad oedd wedi clywed amdano.

Mae ymatebion i'n cwestiwn ar Lwfans Tai Lleol yn fwy diddorol. Er bod maint y samplau yn parhau i fod yn fach ac yn wahanol yn y ddau grŵp, mae'r newidiadau yn ddigon gwahanol fel y gallant fod o ryw arwyddocâd. Yn 2023 fe welsom fod 46% o'r ymatebwyr wedi clywed am y Lwfans Tai Lleol, o'i gymharu â 53% nad oedd wedi clywed amdano, tra yn 2022 roedd 30% o'r ymatebwyr wedi clywed am Lwfans Tai Lleol o'i gymharu â 69% nad oedd wedi gwneud clywed amdano.

Yn ystod y ddwy flynedd, mae pryder bod nifer yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Lwfans Tai Lleol yn is na'r rhai nad oedd wedi clywed, hyd yn oed os yw'r bwlch yn dechrau cau.

Mae'n ymddangos bod llai o gynnydd gyda'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae nifer yr ymatebwyr nad oeddent wedi clywed am y Gronfa Cymorth Dewisol wedi aros yn uchel, yn 2022 nid oedd 64% o'r ymatebwyr wedi clywed am y Gronfa Cymorth Dewisol ac yn 2023, nid oedd 58% o'r ymatebwyr wedi clywed am y gronfa. Gwelwn fod canran y rhai oedd wedi clywed am y Gronfa Cymorth Dewisol wedi cynyddu, ond yn llai sylweddol na chanran y Lwfans Tai Lleol. O'r rhai sydd wedi clywed amdano, dywedodd un ymatebydd wrthym, er eu bod yn gwybod beth ydoedd, nad oeddent yn ei ddeall na gwybod sut i'w gael.

Mewn grŵp ffocws y llynedd, clywsom fod person anabl wedi derbyn taliad cymorth cost byw o £150 heb unrhyw gyfathrebu ynghylch y taliad. Yn gyffredinol, roedd 62 o ymatebwyr wedi clywed am y taliad o £150 gan ei wneud yr ail fwyaf adnabyddus yn dilyn Lwfans Tanwydd Gaeaf. Fodd bynnag, mae effaith y taliad yn ymddangos yn gyfyngedig, adroddodd un ymatebydd ei fod "wedi helpu i wneud tolch am fis."

Gofynnwyd am ddefnydd ymatebwyr o fanciau bwyd a banciau cynnes. Roedd pob ymatebydd wedi clywed am fanciau bwyd, roedd 10 o ymatebwyr wedi bod i fanc bwyd, roedd 9 o ymatebwyr wedi ystyried mynd i fanc bwyd ac roedd 51 o ymatebwyr wedi dweud nad oeddent byth yn mynd nac yn ystyried mynd i fanc bwyd. Roedd gan ymatebwyr nad oeddent wedi mynd i fanc bwyd nac wedi ystyried mynd i fanc bwyd amrywiaeth o resymau pam, ac nid oedd pob ymatebydd eu hangen. Roedd yr ymatebion eraill yn canolbwyntio ar hygyrchedd banciau bwyd, y byddent yn mynd i fanc bwyd pe byddai ganddynt fodd i gyrraedd un, neu roedd cywilydd ynghylch defnydd banc bwyd yn allweddol. Dywedodd rhai eu bod yn byw mewn ardaloedd 'hel clecs' ac yn poeni am sibrydion, nododd rhai, er eu bod nhw angen un, na fyddai eu balchder yn caniatáu iddynt ddefnyddio banc bwyd. Dywedodd mynychwr y grwpiau ffocws hefyd fod eu balchder wedi eu hatal rhag mynd i fanc bwyd. Rydyn ni'n gweld problem allweddol gyda'r canfyddiad o fanciau bwyd gyda chywilydd ynghylch eu defnydd yn atal pobl anabl rhag manteisio ar adnodd allweddol.

Mae'n stori debyg gyda banciau cynnes. Mae'r rhain yn llai proffil uchel na banciau bwyd gydag 8 ymatebydd ddim yn gwybod beth oedd banc bwyd a chyfranogwr grŵp ffocws ddim yn gwybod beth ydyn nhw. Gan fod llai o fanciau cynnes na banciau bwyd, nodwyd bod mynediad corfforol atynt yn fater allweddol o ran eu defnyddio. Mae mynediad corfforol yn yr achos hwn yn cwmpasu teithio i fanciau cynnes a'r gofod

a ddefnyddir fel banc cynnes. “Mae costau teithio a seddi anghyfforddus yn rhwystrau.” Yn y grwpiau ffocws, nid oedd rhai ymatebwyr yn cael mynediad i fanciau cynnes gan y byddai'r daith i gyrraedd y banc cynnes yn dal yn eu gadael yn oer dros ben.

Mae cost ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus yn rhwystr dro ar ôl tro trwy gydol yr adroddiad hwn. Hyd yn oed mewn rhannau o Gymru sydd â mynediad at rai o'r gwasanaethau hyn, neu lle mae cymorth yn cael ei sefydlu a lle gall cymunedau weithio gyda'i gilydd, mae'r system drafnidiaeth yng Nghymru wedi golygu bod pobl anabl nad ydynt yn gallu cael mynediad atynt o hyd. Mae trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn fater sy'n cael ei drafod yn aml, ond ar lefel llawr gwlad, ansawdd trafndiaeth yng Nghymru yw un o'r rhwystrau mwyaf i allu cefnogi pobl anabl yn effeithiol.

Cynhaliwyd yr ymchwil hon cyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno deddfwriaeth i godi llawer o fanteision yn unol â chwyddiant. Mae hwn yn gam i'w groesawu er ei bod yn hen bryd. Fodd bynnag, rydyn ni'n pryderu, gan y bydd chwyddiant yn parhau i godi a chyn yr argyfwng costau byw, nad oedd lefelau budd-daliadau'n ddigonol i dalu costau sylfaenol heb sôn am gostau ychwanegol a wynebir gan lawer o bobl anabl, y bydd y mater hwn yn codi eto

Effaith ar Sefydliadau Pobl Anabl

Mae llawer o sefydliadau pobl anabl ar hyd a lled Cymru yn darparu gwasanaethau a chymorth hanfodol i bobl anabl. Fodd bynnag, mewn cyfarfod rhwydwaith gyda sefydliadau pobl anabl, dywedodd llawer nad oes ganddynt y cyllid maen nhw ei angen i gynnal lefel y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Tynnwyd sylw at gyllid i frwydro yn erbyn cost gynyddol biliau a threuliau eraill fel angen allweddol. Un enghraifft nodedig yw Aubergine Cardiff, caffi a sefydliad celfyddydol dan arweiniad awtistiaeth a wynebodd gael eu troi allan yn ddiweddar oherwydd i'w landlord gynyddu ei rent yn sylweddol.

Mae sefydliadau pobl anabl yn cael eu rhedeg a'u rheoli gan bobl anabl ac maen nhw mewn sefyllfa unigryw i ddarparu gwasanaethau a chymorth i bobl anabl sy'n diwallu eu hanghenion yn llawnach. Cydnabuwyd bod hyn yn hanfodol i weithredu'r UNCRDP, ond nid yw'r cyllid ar gyfer sefydliadau pobl anabl boed ar lefel genedlaethol neu leol yn ddigonol.

Casgliad

Mae'r argyfwng costau byw wedi achosi niwed sylweddol i lawer o bobl anabl yng Nghymru. I rai, mae wedi golygu cwtogi ar gostau llai, i rai o'r bobl anabl a ymatebodd i'n harolwg, mae wedi newid eu bywydau yn llwyr. Mae ymateb Llywodraeth y DU i'r argyfwng costau byw hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar annigonolrwydd y system les bresennol a'r prosesau a sefydlwyd i ddarparu cymorth ariannol hanfodol.

Ymdrechodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol amserol ond tymor byr i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a sicrhodd ryw faint o fudd i bobl anabl. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hirdymor, parhaus y mae pobl anabl yn eu hwynebu a amlygwyd yn yr Adroddiad *Cloi Allan*, sefydlodd y Prif Weinidog y Tasglu Hawliau Anabledd ym mis Tachwedd 2021. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd tuag at ddatblygu camau gweithredu ac amcanion, nid oes bwriad i'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd llawn gael ei gyhoeddi tan fis Mawrth 2024, gan adael llawer o bobl anabl yn teimlo'n rhwystredig ynghylch y diffyg brys wrth fynd i'r afael â materion cyfredol.

At hynny, ni ddarparodd Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru gymorth a dargedwyd yn benodol ar fynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw a brofir gan bobl anabl, sy'n wynebu costau byw uwch oherwydd eu namau er eu bod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi. Mae llawer o bobl anabl yn dweud eu bod nhw wedi gweld eu namau a'u cyflyrau iechyd yn gwaethygu o ganlyniad i'r argyfwng, gyda phroblemau iechyd meddwl yn troi'n epidemig tawel. Daeth unigrwydd i'r amlwg fel thema gref yn yr ymchwil, gan nodi nid yn unig diffyg cwmni, ond hefyd ymdeimlad o gael eu gadael wrth orfod gwneud dewisiadau anodd gyda chefnogaeth gyfyngedig.

Gyda chostau ynni a phrisiau hanfodion fel bwyd a gwasanaethau hanfodol fel trafndiaeth gyhoeddus yn dal i fod yn uchel, rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithredu ar frys ac yn ystyrlon mewn ymateb i brofiadau dirdynnol pobl anabl a oedd yn gweld eu hunain 'prin wedi goroesi'

Argymhellion Allweddol

- Ymrwymiad i'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd arfaethedig, a gyd-gynhyrchwyd gan y Tasglu Hawliau Anabledd, gan effeithio ar newid radical wrth sicrhau potensial

- cymdeithasol ac economaidd mwyaf pobl anabl yng Nghymru a lleihau'r niwed a achosir gan argyfyngau cenedlaethol
- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Er gwaethaf iddo gael ei gynnwys yn y Rhaglen Llywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu gyda Phlaid Cymru, nid oes llinell amser o hyd ar gyfer ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Gydag amser cyfyngedig ar ôl yn yr agenda ddeddfwriaethol, rhaid i Lywodraeth Cymru amlinellu ei chynllun ar gyfer ei ymgorffori.
 - Darparu adnoddau a mesurau meithrin gallu i sicrhau sefydlu a chynaliadwyedd o leiaf un Sefydliad Pobl Anabl ym mhob awdurdod lleol, i gefnogi cydgynhyrchu polisïau a gwasanaethau gyda chyrrff cyhoeddus, gan gynnwys cynlluniau cymorth cymheiriaid ar gyfer pobl anabl
 - Ymrwymiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu mynd i'r afael â chost ychwanegol anabledd, cynnwys pobl anabl a Sefydliadau Pobl Anabl wrth ailgynllunio'r system fudd-daliadau.
 - Datganoli'r Taliad Annibyniaeth Bersonol budd-dal i Lywodraeth Cymru, gan alluogi dull cydgynhyrchu o ran y broses ddylunio ac asesu yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd.
 - Gweithredu gan reoleiddwyr, fel Ofgem ac Ofcom, i sicrhau nad yw pobl anabl yn gordalu am wasanaethau hanfodol bob dydd ²⁴. Dylai taliadau sefydlog uwch ecsbloetiol ar gyfer mesuryddion talu ymlaen llaw ddod i ben a dylid cyflwyno tariffau cymdeithasol. Rhaid i'r Llywodraeth ymyrryd i sicrhau bod biliau ynni yn fforddiadwy i bawb ac nad yw cwsmeriaid yn cael eu gorfodi i symud i fesuryddion talu ymlaen llaw.
 - Gweithredu “Un Tocyn, Un Llwybr, Un Gwasanaeth”, gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, fel bysiau a threnau, sy'n cael ei gymryd o dan berchnogaeth gyhoeddus i'w ddarparu fel gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys mesurau fel prisiau tocynnau is gyda'r nod yn y pen draw i wneud trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn rhad ac am ddim.
 - Dylid ystyried cymorthdaliadau bwyd i leihau cost bwyd mewn siopau. I ategu hyn, dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol

roi cymorth i greu cynlluniau bwyd cymunedol a'u meithrin. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys llety ar gyfer gofynion dietegol a chynnwys opsiynau ar gyfer gofynion mynediad.

- Defnyddio casglu data ac asesiadau o anghenion y boblogaeth i lywio dull cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd i nodi pobl anabl sydd mewn perygl o effeithiau'r argyfwng costau byw ar eu hiechyd a'u lles drwy sicrhau bod gwasanaethau cymorth a chymorth ariannol yn cael eu targedu'n well.
- Llywodraeth Cymru, gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu cymorth penodol ar gyfer rhedeg a chynnal a chadw offer sy'n gysylltiedig ag anabledd, er mwyn sicrhau nad yw pob person anabl yn cael ei effeithio'n ariannol gan eu hangen i ddefnyddio offer penodol.
- Llywodraeth Cymru i adolygu ei pholisi ar daliadau gofal cymdeithasol ar frys, gan gynnwys a yw'r difaterwch o ran gwariant ar sail anabledd yn diogelu pobl anabl ar incwm isel gyda chostau uchel yn ddigonol.
- Gweithredu ar frys i gydnabod a mynd i'r afael â materion iechyd meddwl ymhlith pobl anabl, gan gynnwys llwybrau i gael gafael ar gymorth iechyd meddwl priodol boed hynny o ofal cymdeithasol, meysydd eraill o'r gwasanaeth iechyd a/neu drwy gymorth gan gymheiriaid, megis gan sefydliadau pobl anabl.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Vaughan a Dawn,

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cynnal gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn ystod y gwanwyn.

Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 19 Rhagfyr 2023.

Tystiolaeth lafar

Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar hefyd pe gallech fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth lafar ddydd Mercher 17 Ionawr 2024 rhwng 09.30 a 11.00.

Dull gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull gweithredu ar y pedair egwyddor ar gyfer gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. At hynny, byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Prif Weinidog, o ystyried perthnasedd eu gwaith i'n cylch gwaith.

Yn dilyn y sesiwn, bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu atoch gydag unrhyw geisiadau ychwanegol am wybodaeth neu eglurhad a bydd yn cyhoeddi adroddiad ar ein casgliadau yn y Senedd.

Yn gywir,



Delyth Jewell

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad 1: Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y gyllideb ddrafft

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2023-24 (fel sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon) fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Gwariant yn y Gyllideb.
- Alldro terfynol ar gyfer 2020-21 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2022-2023.

Gwybodaeth arall

- Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae portffolio'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon yn cael ei gyflawni, a sut y mae'r canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.
- Manylion am bolisiau neu raglenni penodol yn y Prif Grwpiau Gwariant (sy'n berthnasol i bortffolio'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon) y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y caiff gwerth am arian a chostau a manteision rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.
- Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2022-23 fel y bo'n berthnasol i bortffolio'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon.
- Goblygiadau pandemig COVID-19, ymadawiad y DU â'r UE, a'r argyfwng costau byw i'r portffolios Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, Diwydiannau Creadigol, a Chwaraeon a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r effaith barhaus.
- Gwybodaeth am ddyraniadau yn eich portffolio i gyflawni Strategaeth Ddiwylliannol Cymru.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant, ac unrhyw ddyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu cysylltiedig.

Meysydd penodol

Cadw

- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Cadw, gan gynnwys targedau creu refeniw, a ffigurau creu incwm blynyddol diweddar (gan gynnwys elw net).
- Dyraniadau tuag at gyllid i berchnogion asedau hanesyddol.

Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys targedau creu refeniw.

Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd

- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Strategaethau Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd.
- Cyllid a ddyrannwyd i weithredu yn ôl argymhellion yr Adolygiad o Amgueddfeydd Lleol.

Y Celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru

- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i hyrwyddo mynediad at y celfyddydau.
- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i drechu tlodi.
- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i annog/alluogi sefydliadau'r celfyddydau i greu rhagor o'u hincwm eu hunain.

Y cyfryngau a darlledu

Y diwydiannau creadigol

- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Cymru Greadigol (gan gynnwys cyllid i'w ddosbarthu gan Cymru Greadigol).
- Diweddariad ar **gynlluniau** i roi rhagor o gymorth i newyddiaduraeth Saesneg sy'n "debyg i beth sydd gyda ni yn y Gymraeg".
- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu.



- Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â gweithredoedd darlledu a chyfathrebu yn y Cytundeb Cydweithredu, a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.

Cymorth ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu

- Y ffigurau refeniw diweddaraf a'r rhagamcaniad refeniw, a'r cyfraddau meddiannaeth ar gyfer Stiwdios Pinewood/Stiwdios Seren ers dechrau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.
- Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau, yr elw o ganlyniad i fuddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect), a'r un ffigurau ar gyfer buddsoddiadau mewn cynyrchiadau sgrin a wneir gan Cymru Greadigol.
- Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y cyllid cynhyrchu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect).
- Y ffigurau diweddaraf ynghylch benthychiad Llywodraeth Cymru i Stiwdios Bad Wolf, gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i feincnodi yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru).
- Disgrifiad o'r strategaeth a'r targedau ar gyfer buddsoddiadau mewn cynyrchiadau sgrin a wnaed gan Cymru Greadigol.
- Asesiad o effaith y cyllid cynhyrchu a ddarperir drwy Ffilm Cymru, a'r dyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Ar 23 Medi 2021, ysgrifennodd y Cadeirydd atoch yn gofyn i chi nodi'r dyraniadau cyllid ar gyfer ymrwymadau a amlinellir yn y **Rhaglen Lywodraethu** o dan y pennawd 'Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu'. Hynny yw:

- sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol;
- sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Diwydiannau Creadigol;
- sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol;
- ymrwymo i Theatr Clwyd;
- sefydlu Amgueddfa Bêl-droed;



- sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.

Bydd y Pwyllgor hefyd am roi sylw i'r dyraniadau cyllid hyn yn ystod y sesiwn graffu.



Mark Drakeford AS

Prif Weinidog

Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Mark,

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cynnal gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn ystod y gwanwyn.

Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 19 Rhagfyr 2023.

Tystiolaeth lafar

Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar hefyd pe gallech fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth lafar ar 11 Ionawr 2024 rhwng 09.30 a 11.00.

Dull gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull gweithredu ar y pedair egwyddor ar gyfer gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. At hynny, byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, o ystyried perthnasedd eu gwaith i'n cylch gwaith.

Yn dilyn y sesiwn, bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu atoch gydag unrhyw geisiadau ychwanegol am wybodaeth neu eglurhad a bydd yn cyhoeddi adroddiad ar ein casgliadau yn y Senedd.

Yn gywir



Delyth Jewell

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad 1: Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y gyllideb ddrafft

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2024-25 ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
- Alldro terfynol ar gyfer 2022-23 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2023-24.
- Sylwadau ar y Camau Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Rhyngwladol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 a'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

Gwybodaeth arall

- Goblygiadau sy'n deillio o effaith barhaus ymadawiad y DU â'r UE ar gynlluniau gwariant ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.
- Goblygiadau effeithiau parhaus y rhyfel yn Wcráin.
- Sylwadau ar yr ymrwymadau o ran cysylltiadau rhyngwladol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru

Meysydd penodol

Strategaeth Ryngwladol

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- Amlinelliad o'r dyraniadau yn y gyllideb ddrafft i gyflawni'r camau gweithredu sydd ym mhob un o'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.
- Adnoddau ar gyfer sefydliadau Cymry ar wasgar allanol.
- Adnoddau ar gyfer pob partner cyflenwi unigol sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.



- Adnoddau ar gyfer sefydliadau celfyddydau a chwaraeon allanol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth.
- Adnoddau gyda'r nod o hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhyngwladol.
- Adnoddau ar gyfer ymgysylltu â'r rhanbarthau a gwledydd blaenoriaeth a amlinellir yn y Strategaeth Ryngwladol.

Rhaglen Cymru ac Affrica

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- yr adnodd a ddarperir i'r prosiectau a'r sefydliadau a gefnogir gan raglen Cymru ac Affrica.
- cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau Plannu Coed ledled Affrica, gan gynnwys Rhaglen Plannu Coed Mbale bresennol.
- cyllid i gefnogi Cymru fel Cenedl Masnach Deg, a manylion y canlyniadau fydd yn cael eu cyflawni a sut y bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn cael ei fesur.

Swyddfeydd tramor

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- Gwaith y swyddfeydd tramor, a manylion am y canlyniadau a gaiff eu cyflawni a sut yr eir ati i fesur y broses o gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Holl ymgysylltiad arfaethedig Llywodraeth Cymru â digwyddiadau mawr rhyngwladol, gan gynnwys sut yr eir ati i werthuso costau a manteision ymgysylltu â'r digwyddiadau.
- Dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer swyddfeydd tramor unigol, ac ar ba sail y gwaned penderfyniadau ar y dyraniadau penodol hyn.



Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Jeremy,

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cynnal gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn ystod y gwanwyn.

Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 19 Rhagfyr 2023.

Tystiolaeth lafar

Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar hefyd pe gallech fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Ionawr 2023 rhwng 09.30 a 11.00.

Dull gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull gweithredu ar y pedair egwyddor ar gyfer gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Rydym hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, a'r Prif Weinidog, o ystyried perthnasedd eu gwaith i'n cylch gwaith.

Yn unol â'r gweithdrefnau cyllidebol newydd, bydd y Pwyllgor yn ystyried a ddylid adrodd ynghylch ein canfyddiadau i'r Senedd.

Yn gywir



Delyth Jewell

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad 1: Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y gyllideb ddrafft

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r gyllideb ddrafft 2024-25 (fel sy'n berthnasol i'r Gymraeg) fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Gwariant yn y Gyllideb.
- Alldro terfynol ar gyfer 2022-23 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2023-2024.

Gwybodaeth arall

- Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae cyflawni portffolio'r Gymraeg a'i ganlyniadau cysylltiedig, a sut y caiff hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.
- Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn benodol, y dyraniadau ar gyfer cyflawni'r 'cerrig milltir' fel y'u nodir yn y *Rhaglen Waith 2021-2026*.

Meysydd penodol

Diweddariadau ar ddyraniadau yn y gyllideb ar gyfer 2023-24

- Gwybodaeth am y dyraniad o £3 miliwn yn 2023-24 ac £1.5 miliwn yn 2022-23 i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach, ac i sicrhau bod dysgu Cymraeg ar gael am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed a staff addysgu.
- Diweddariad ar ddsbarthu'r £2.2 miliwn (y flwyddyn) a ddyrannwyd i ehangu'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg ledled Cymru a sut y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid hwn ledled Cymru.
- Manylion am y nifer sy'n manteisio ar gymhelliant Iaith Athrawon Yfory, ac unrhyw wybodaeth y gellir ei rhannu am werthuso'r effaith.
- Diweddariad ar ddyraniadau cyllideb o rannau eraill o bortffolio'r Gweinidog, er enghraifft y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon a sut y mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y sector addysg.



- Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â dyraniad y gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2024-25.

Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

- Cynnydd manwl ar ehangu capasiti mewn ysgolion Cymraeg, dosbarthiad Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

Delyth Jewell AS

Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Hydref 2023

Annwyl Ms Jewell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Hydref 2023 yn cymryd camau dilynol mewn perthynas â sawl pwynt a godwyd yn ystod ein cyfarfod gyda'r Pwyllgor ar 21 Medi 2023 ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr.

Adborth o Fforwm Cyfrifiad Rhyngwladol 2023

Cynhaliwyd Fforwm Cyfrifiad Rhyngwladol 2023 yn Montreal rhwng 2 a 5 Hydref. Roedd cynrychiolwyr o Ganada, Unol Daleithiau America, Seland Newydd, Awstralia, Iwerddon, yr Alban, Cymru a Lloegr, a Gogledd Iwerddon yn bresennol.

Cafodd y mater o gasglu data am iaith yn y cyfrifiad ei drafod yn y Fforwm hwn. Yn benodol, cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut y caiff gwybodaeth am iaith ei chasglu yn y cyfrifiad ac a oes unrhyw heriau penodol wedi'u nodi. Yn fras, ni nododd unrhyw wlad ei bod wedi cael anawsterau sylweddol wrth gasglu nac adrodd.

Er enghraifft, yng Nghyfrifiad o Boblogaeth Canada, mae pedwar cwestiwn am iaith, sef: a yw'r person yn gallu siarad Saesneg neu Ffrangeg yn ddigon da i gynnal sgwrs; pa iaith a gaiff ei siarad yn rheolaidd yn y cartref; pa iaith a gaiff ei siarad amlaf yn y cartref; pa iaith a gaiff ei dysgu gyntaf yn y cartref yn ystod plentyndod ac sy'n cael ei deall o hyd.

Ni nododd gwledydd unrhyw broblemau mewn perthynas ag ymdeimlad o berthyn nac unrhyw faterion eraill o bwys wrth gymharu'r Cyfrifiad ag Arolygon.

Fel rhan o fframwaith Cymunedau Ymarfer y Fforwm, mae gweithgorau technegol yn bodoli er mwyn symud gwaith yn ei flaen mewn ffordd gydweithredol. Byddai casglu gwybodaeth am iaith yn rhan o'r Gymuned Ymarfer ar gyfer casglu data ac felly bydd arferion gorau a dulliau gweithredu yn parhau i gael eu rhannu rhwng gwledydd yn y gweithgor hwn.

Cynllun gwaith ar y cyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) a Llywodraeth Cymru ar gydlynu ystadegau am y Gymraeg

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cael data cadarn ar sgiliau Cymraeg i Lywodraeth Cymru, er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y nod o gael miliwn o siaradwyr erbyn

16. Ofcom's decision to prioritise DAB licenses overlooks the high levels of AM/FM listening in Wales, and does not take into account the difficulties in digital transmission across parts of Wales. Community radio stations believe that FM licences will enable them to reach a wider audience. There is a clear demand, and continuing need, for FM radio licences. *We recommend that Ofcom resume offering FM licences, particularly targeting local and community radio stations.* (Paragraph 102)
17. The Government's proposal to remove the duty on Ofcom to provide for a diversity of national and local analogue services on AM/FM also appears premature, especially given the difficulties in some areas of accessing DAB services. *We recommend that the Government amend the Draft Media Bill to ensure that this duty is retained.* (Paragraph 103)
18. Community radio plays a vital role in serving local people, and we welcome the growth in this sector. However, we are concerned with the current levels of funding for the sector in Wales. Funding available through the UK Government's Community Radio Fund has not kept pace with inflation. *We recommend that the Government increases the Community Radio Fund to match the current demand, as well as linking it to inflation for future years.* (Paragraph 110)
19. The current UK Community Radio Fund is too restrictive and does not allow small community radio stations to spend funding where they best feel it is needed. *We recommend that the Government amends the restrictions on where funding from the Community Radio Fund can be spent, allowing community radio stations greater flexibility to spend the funds where it will be of greatest use.* (Paragraph 111)
20. *The Welsh Government's Community Radio Fund played an important role in supporting community radio in Wales. We urge the Welsh Government to reinstate support for community radio in Wales. This support was discontinued in 2014.* (Paragraph 112)
21. Advertising on community radio would benefit their development and enable the Government to reach a wider audience with its advertisements, potentially increasing the pool of applicants for public sector jobs. *We call on the Government to develop and publish by April 2024 a strategy setting out how it will seek to place advertisements on community radio stations.* (Paragraph 116)

Developing the skills pipeline into Welsh broadcasting

22. PSBs are crucial to the continual success of the independent production sector in Wales. However, we are concerned that the lack of network-level commissioning power at BBC Cymru Wales is leading to commissions being given to companies outside Wales. *In their response to our Report, BBC Cymru Wales must write to us to explain why their approach to commissioning in Wales appears to differ from that adopted by the BBC in Scotland and Northern Ireland.* (Paragraph 123)
23. Streaming companies provide an exciting opportunity for work for the independent production sector in Wales. They can provide an additional source of revenue to commissions from PSBs and help spread the word about the excellence of Welsh production companies. However, it can be difficult for a small nation such as Wales to attract investment and to highlight skills within its production sector. *The Welsh and UK Governments must outline to us the steps they are taking to attract both PSBs and streaming services to produce more programmes in Wales. The UK Government should explain how it is harnessing the increased interest in Wales, especially in the USA, to attract streaming services to produce programmes in Wales.* (Paragraph 127)
24. We are concerned that the introduction of in-house commissioning at Channel 4 could harm independent production companies in Wales. *In its response to this Report, the Government must outline the steps it will take to ensure that the introduction of in-house commissioning by Channel 4 will help rather than harm the independent production sector in Wales. We call on the Government to make changes to the Draft Media Bill to reflect our concerns. We also call on Channel 4, in response to this Report, to outline their commitment to commissioning work from Welsh production companies.* (Paragraph 132)
25. The creative industry provides an opportunity for employment and economic growth in Wales. Wales already has a strong reputation in this area and produces programmes which are seen by a global audience. However, the industry is currently threatened by the skills shortage in this area. We welcome the plans published by Creative Wales and by the UK Government to address skills shortages in this area, and this needs to be seen as an area of priority. However, more still needs to be done to address skills shortages. (Paragraph 137)
26. Apprenticeships can be an effective and powerful way of developing a diverse and skilled workforce. However, the current system of apprenticeships within the broadcasting sector is inflexible, and does not reflect the needs of a freelance, project-based sector. There must be a fundamental reform of the Apprenticeship Levy in the UK. *There must be a fundamental reform of the Apprenticeship Levy in the UK. We call on the UK and Welsh Governments to review the Apprenticeship Levy and to increase the roll out of the shared apprenticeship system in Wales to ensure that they can benefit the creative industries sector in Wales.* (Paragraph 138)
27. Brass-plating allows broadcasters to meet their regional production criteria while using production companies that may not be based in Wales. Ofcom acknowledges that relying on the “substantive base” criterion alone provides an opportunity for the system to be manipulated. *We recommend that Ofcom examine whether this*

criterion alone should be sufficient to qualify a production as being based in Wales. We call on the Government to amend the Draft Media Bill to address this problem.
(Paragraph 142)

Formal minutes

Wednesday 18 October 2023

Members present

Rt Hon Stephen Crabb, in the Chair

Simon Baynes

Ruth Jones

Ben Lake

Robin Millar

Rob Roberts

Broadcasting in Wales

Draft report (Broadcasting in Wales), proposed by the Chair, brought up and read.

Ordered, That the draft Report be read a second time, paragraph by paragraph.

Question accordingly agreed to.

Paragraphs 1 to 142 read and agreed to.

Summary agreed to.

Resolved, That the Report be the Fifth Report of the Committee to the House.

Ordered, That the Chair make the Report to the House.

Ordered, That embargoed copies of the Report be made available, in accordance with the provisions of Standing Order No. 134.

Adjournment

Adjourned till Wednesday 25 October at 9.30am.

Witnesses

The following witnesses gave evidence. Transcripts can be viewed on the [inquiry publications page](#) of the Committee's website.

Wednesday 09 November 2022

Guto Harri, Broadcaster and Communicator [Q1–31](#)

Wednesday 07 December 2022

Siân Doyle, CEO, S4C; **Phil Henfrey**, Head of News and Programmes, ITV Cymru Wales; **Rhunedd Richards**, Director, BBC Cymru Wales [Q32–92](#)

Wednesday 18 January 2023

Adam Minns, Executive Director, The Association for Commercial Broadcasters and On-Demand Services (COBA); **Benjamin King**, Director of Public Policy, UK and Ireland, Netflix [Q93–129](#)

Wednesday 01 March 2023

Toby Ellis, Station Manager, Director and Broadcaster, Pure West Radio; **Terry Mann**, Station Manager, GTFM Radio [Q130–152](#)

Martin Mumford, Managing Director, Nation Broadcasting [Q153–187](#)

Wednesday 19 April 2023

Eleanor Marks, Director Wales, Ofcom; **Kate Biggs**, Content and Media Policy Director, Ofcom [Q188–264](#)

Wednesday 10 May 2023

Tomos Grace, Head of Media and Responsibility, Strategy and Operations, YouTube Europe, Middle East and Africa (EMEA); **Giles Derrington**, Senior Government Relations and Public Policy Manager, TikTok; **Megan Thomas**, Public Policy Manager, Meta [Q265–329](#)

Wednesday 07 June 2023

Nigel Walker, Acting CEO, Welsh Rugby Union; **Ian Davis**, Chief Commercial and Engagement Officer, Football Association of Wales [Q330–367](#)

Sioned William, Director, Cwmni Da; **Dyfrig Davies**, Chair, Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC); **Siân Price**, Creative Director, Yeti Television [Q368–401](#)

Wednesday 28 June 2023

Efa Gruffudd Jones, Welsh Language Commissioner, **Lowri Williams**, Strategic Director, Welsh Language Commissioner's Office [Q402–422](#)

Rt Hon Sir John Whittingdale MP, Minister of State for Media, Tourism and Creative Industries, Department for Culture, Media and Sport; **Robert Specterman-Green**, Director, Media and Creative Industries, Department for Culture, Media and Sport

[Q423-460](#)

Published written evidence

The following written evidence was received and can be viewed on the [inquiry publications page](#) of the Committee's website.

BRO numbers are generated by the evidence processing system and so may not be complete.

- 1 Amazon Prime Video ([BRO0018](#))
- 2 Arqiva ([BRO0007](#))
- 3 BBC Cymru Wales ([BRO0014](#))
- 4 BBC Cymru Wales ([BRO0021](#))
- 5 Channel 4 ([BRO0012](#))
- 6 Cymdeithas yr Iaith ([BRO0009](#))
- 7 David P. Davis, Founder and Creative Director, 5 Acts Productions ([BRO0023](#))
- 8 Department for Digital, Culture, Media and Sport ([BRO0016](#))
- 9 ITV Cymru Wales ([BRO0001](#))
- 10 Professor Justin Lewis, Director, Clwstwr ([BRO0015](#))
- 11 Media Reform Coalition ([BRO0013](#))
- 12 Meta ([BRO0028](#))
- 13 MônFM ([BRO0019](#))
- 14 Dr Caitriona Noonan, Senior Lecturer Media and Communications, Cardiff University ([BRO0003](#))
- 15 Ofcom ([BRO0022](#))
- 16 Ofcom ([BRO0030](#))
- 17 Ofcom ([BRO0032](#))
- 18 Pact ([BRO0008](#))
- 19 Radiocentre ([BRO0020](#))
- 20 Radiocentre ([BRO0005](#))
- 21 S4C ([BRO0011](#))
- 22 Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ([BRO0004](#))
- 23 Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ([BRO0027](#))
- 24 The Association for Commercial Broadcasters and On-Demand Services (COBA) ([BRO0002](#))
- 25 The Association for Commercial Broadcasters and On-Demand Services (COBA) ([BRO0017](#))
- 26 TikTok ([BRO0024](#))
- 27 Twitter ([BRO0025](#))
- 28 Welsh Government ([BRO0006](#))
- 29 Welsh Language Commissioner ([BRO0010](#))
- 30 Yeti Television ([BRO0026](#))
- 31 YouTube ([BRO0033](#))

List of Reports from the Committee during the current Parliament

All publications from the Committee are available on the [publications page](#) of the Committee's website.

Session 2022–23

Number	Title	Reference
1st Report	Grid Capacity in Wales	HC 218
2nd Report	Floating Offshore Wind in Wales	HC 1182
3rd Report	Nuclear energy in Wales	HC 240
4th Report	Wales as a global tourist destination	HC 220
1st Special Report	The Benefits System in Wales: Government response to the Committee's Fourth Report of Session 2021–22, and correspondence from the Welsh Government	HC 402
2nd Special Report	The economic and cultural impacts of trade and environmental policy on family farms in Wales: Government response to the Committee's Fifth Report of Session 2021–22	HC 470
3rd Special Report	Grid capacity in Wales: Government response to the Committee's First Report	HC 1063
4th Special Report	Floating Offshore Wind in Wales: Government Response to the Committee's Second Report	HC 1405
5th Special Report	Nuclear energy in Wales: Government Response to the Committee's Third Report	HC 1656

Session 2021–22

Number	Title	Reference
1st Report	Railway Infrastructure in Wales	HC 438
2nd Report	Renewable energy in Wales	HC 439
3rd Report	Implications of the UK-Australia FTA for Wales	HC 481
4th Report	The Benefits System in Wales	HC 337
5th Report	The economic and cultural impacts of trade and environmental policy on family farms in Wales	HC 607
1st Special Report	Railway infrastructure in Wales: Government response to the Committee's First Report of Session 2021–22	HC 715
2nd Special Report	Renewable energy in Wales: Government response to the Committee's Second Report	HC 756
3rd Special Report	Implications of the UK/ Australia FTA for Wales: Government response to the Committee's Third Report of Session 2021–22	HC 895

Session 2019–21

Number	Title	Reference
1st Report	Pre-appointment hearing with the Government's preferred candidate for the Chair of S4C	HC 89
2nd Report	Freeports and Wales	HC 205
3rd Report	The Welsh economy and Covid-19: Interim Report	HC 324
4th Report	Wales and the Shared Prosperity Fund: Priorities for the replacement of EU structural funding	HC 90
5th Report	Brexit and trade: implications for Wales	HC 176
1st Special Report	The Armed Forces and Defence Industry in Wales: Government Response to the Committee's First Report of Session 2019	HC 97
2nd Special Report	City Deals and Growth Deals in Wales: Government Response to the Committee's Second Report of Session 2019	HC 146
3rd Special Report	Freeports and Wales: Government Response to Committee's Second Report of Session 2019–21	HC 667
4th Special Report	Wales and the Shared Prosperity Fund: Priorities for the replacement of EU structural funding: Government response to the Committee's Fourth Report of Session 2019–21	HC 1083
5th Special Report	Brexit and trade: implications for Wales: Government response to the Committee's Fifth Report of Session 2019–21	HC 1223

Crynodeb

Mae'r diwydiant darlledu yn mynd trwy gyfnod o newid trawsnewidiol, wedi'i yrru gan ddatblygiadau technolegol sylweddol o ran sut mae cynnwys yn cael ei greu, ei ddosbarthu a'i wyllo. Mae'r newid o fformatau analog i ddigidol, a thwf rhyngwyd cyflym iawn, wedi gweld gwasanaethau ffrydio ar-alw fel Netflix ac Amazon Prime Video yn cynnig dewis digyngsail i ddefnyddwyr, gyda hynny yn arwain at ostyngiad yn y niferoedd sy'n gwyllo sianeli teledu llinol traddodiadol. Mae'r holl setiau teledu clyfar a dyfeisiau cysylltiedig newydd wedi'i gwneud hi'n haws nag erioed i wylwyr gyrchu cynnwys ar-lein ar eu setiau teledu. Mae mwy a mwy ohonom yn gwyllo rhaglenni ar blatfformau digidol, yn gwrando ar radio trwy seinyddion clyfar, ac yn manteisio ar gynnwys o'n dewis yn hytrach na dilyn amserlen.

Mae darlledu yn chwarae rhan hanfodol o ran adlewyrchu a siapio hunaniaeth Gymreig fodern drwy ystod amrywiol o gynnwys teledu a radio, sy'n cwmpasu newyddion a materion cyfoes, drama, chwaraeon byw a digwyddiadau diwylliannol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y cyfamser, mae'r diwydiant darlledu yng Nghymru yn parhau i ddarparu cronfa gyfoethog o dalent ac arbenigedd sy'n cyfrannu at dwf a llwyddiant y sector ar lefel y DU ac, yn wir, ar lefel ryngwladol.

Gydol ein hymchwiliad, fe wnaethom ni nodi'r themâu a'r materion allweddol sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod darlledu yng Nghymru yn parhau i ffynnu. Felly, mae ein hadroddiad yn gwneud y casgliadau a'r argymhellion canlynol:

Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) y DU yn brwydro am sylw ar dudalen gyntaf unrhyw ddyfais arwyddocaol, boed yn ddyfais glyfar, yn deledu clyfar neu'n gonsol gemau.

Mae'r rheoliadau presennol yn hen ffasiwn am eu bod wedi'u cyfyngu i ganllawiau teledu electronig llinol traddodiadol ac nad ydynt yn berthnasol i setiau teledu ffrydio, ar-alw a theledu sy'n gysylltiedig â'r we. Bydd diffyg amlygrwydd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws pob dyfais, yn enwedig platfformau digidol a ffrydio, yn golygu ei bod hi'n anodd i ddefnyddwyr ddod o hyd i'w hoff gynnwys mewn fformat ac iaith y maen nhw'n eu mwynhau. Mae'r cynigion a geir ym Mil y Cyfryngau drafft ar amlygrwydd yn hanfodol i lwyddiant parhaus darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn yr unfed ganrif ar hugain. Rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno Bil y Cyfryngau i Senedd San Steffan cyn gynted â phosibl yn y Sesiwn nesaf, sydd i fod i ddechrau ym mis Tachwedd 2023, a blaenoriaethu ei daith drwy'r ddau Dŷ.

Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus foderneiddio er mwyn goroesi yn yr oes ddigidol. Rydym yn croesawu'r buddsoddiad gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu platfformau digidol, sydd ei angen o ystyried y gyfran gynyddol o bobl yng Nghymru sy'n eu defnyddio i wyllo rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd cael mynediad at gynnwys Cymreig ar y platfformau hyn, sy'n golygu ei bod hi'n anodd ei weld yng Nghymru ac ar hyd a lled y DU. Rydym yn galw ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddatblygu eu platfformau digidol ar frys i wella lefel eu personoli ar-lein a sicrhau bod rhaglenni lleol i Gymru a chynnwys Cymraeg ei iaith yn amlwg a hawdd eu cyrchu. Gofynnwn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adrodd i ni erbyn mis Mawrth 2024 ar eu cynnydd yn y maes hwn.

[Dyfodol darlledu Cymraeg](#)

Mae'n hanfodol bod darpariaeth Gymraeg yn parhau i dyfu yn y cyd-destun cyfryngau newidiol hwn, a'i bod yn rhan weladwy o'r system deledu yn y DU. Er ein bod ni'n croesawu'r setliad cyllido presennol sydd ar waith ar gyfer S4C, mae'n hanfodol bod gan y sianel fwy o

sicrwydd ynghylch ei chyllid hirdymor. Nodwn fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi adolygiad o fodel ffi'r drwydded. Bydd gan hyn oblygiadau ar gyfer darlledu Cymraeg gan y BBC, a chyllid S4C yn y dyfodol. Yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn, rhaid i'r Llywodraeth roi sicrwydd bod yr adolygiad yn cynnwys cyfeiriad at ddiogelu darlledu Cymraeg ei iaith.

Rydym yn croesawu'r buddsoddiadau gan Lywodraeth y DU mewn darpariaeth ddigidol ar gyfer S4C, ond mae maint y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd darlledu Cymraeg yn yr hirdymor yn frawychus. Rydym yn poeni y bydd y chwyldro ehangach ym myd darlledu yn gadael S4C mewn sefyllfa fregus. Mae hefyd yn amlwg bod gan S4C berthynas gref gyda'r BBC, ac mae'r cysylltiadau hyn wedi eu gwella ymhellach gan ddibyniaeth S4C ar gyllid ffi'r drwydded ac ar BBC iPlayer fel y platfform amlycaf ar gyfer cynnwys digidol. Er mwyn sicrhau bod darlledu Cymraeg yn parhau i fynd o nerth i nerth, rydym yn argymhell gwell partneriaeth hirdymor rhwng S4C a'r BBC. Dylai hyn gynnwys mesurau diogelu o ran brand, golygyddiaeth ac annibyniaeth fasnachol S4C. Dylai'r bartneriaeth hon weithio tuag at gytundeb fframwaith hirdymor sy'n cefnogi S4C, gan roi'r buddsoddiad iddi allu cynhyrchu cynnwys digidol i gystadlu â gwasanaethau ffrydio. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon oruchwylio'r bartneriaeth.

[Darlledu chwaraeon byw yng Nghymru](#)

Mae darlledu digwyddiadau chwaraeon o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'n dod â phobl at ei gilydd i rannu profiad ar y cyd, ac yn destun balchder mawr. Y perygl o roi chwaraeon y tu ôl i wal dalu yw na fydd unrhyw chwistrelliad tymor byr o arian ychwanegol yn cyrraedd chwaraeon llawr gwlad gyda hynny wedi'i wrthbwysu gan lai o ymwybyddiaeth a llai o gymryd rhan ym myd y campau yn y tymor hwy. Felly, dylai darlledu chwaraeon byw ymdrechu i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, a gyflawnir orau trwy ddarllediadau am ddim. Mae hyn

yn arbennig o wir ar gyfer undeb rygbi Cymru, sydd angen ailddarganfod ei henaid a cheisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl yng Nghymru. Credwn fod cynnal system o ddigwyddiadau rhestredig er budd y cyhoedd gan ei fod yn sicrhau bod darlledwyr-am-ddim yn gallu sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu gwyllo digwyddiadau chwaraeon o bwys cenedlaethol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod y drefn digwyddiadau rhestredig ar hyn o bryd yn adlewyrchiad cywir o bwysigrwydd rhai cystadlaethau i gefnogwyr. Rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn ychwanegu'r Chwe Gwlad at Grŵp A o'r Digwyddiadau Chwaraeon Rhestredig, er mwyn sicrhau ei statws ar deledu daearol.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn chwaraeon yn fynegiant hanfodol o hunaniaeth i lawer. Er ein bod ni'n deall pryderon y gallai gofyniad y Gymraeg leihau gwerth contractau darlledu, credwn fod darparu sylwebaeth Gymraeg yn hollbwysig i fywiogrwydd yr iaith. Nodwn fod Viaplay wedi negodi'n llwyddiannus i S4C ddarparu darlledu Cymraeg. Llwyddodd Amazon Prime Video i ddarparu sylwebaeth Gymraeg ar gyfer gemau rhyngwladol rygbi'r undeb yr hydref. Felly, mae gwasanaethau ffrydio yn barod i sicrhau darpariaeth Gymraeg. Nid yw cod presennol Ofcom yn rhoi grym iddo ddiogelu'r ddarpariaeth Gymraeg a sicrhau ei bod yn parhau. Rydym yn argymhell diwygio cylch gwaith Ofcom i sicrhau y gall ddynodi digwyddiadau yng Ngrŵp A a Grŵp B y Drefn Digwyddiadau Rhestredig a digwyddiadau penodedig sydd heb eu rhestru fel rhai lle mae sylwebaeth fyw yn y Gymraeg yn ofynnol.

Radio

Rydym yn pryderu'n fawr am y dirywiad ymddangosiadol yn y defnydd o'r Gymraeg ar orsafoedd radio masnachol. Mae'r gallu i wrando yn y Gymraeg bob dydd yn hanfodol er mwyn cynnal y Gymraeg ac annog dysgwyr newydd. Nid yw'r fframwaith rheoleiddiol presennol yn ddigon cryf i gefnogi'r Gymraeg ar radio masnachol. Gofynnwn i'r Llywodraeth

ystyried digonolrwydd cylch gwaith Ofcom mewn perthynas â chynnwys Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yng Nghymru.

Mae penderfyniad Ofcom i flaenoriaethu trwyddedau DAB yn diystyru'r lefelau uchel o wrando ar AM/FM yng Nghymru, ac nid yw'n ystyried yr anawsterau o ran signal digidol ar draws rhannau o Gymru. Mae gorsafoedd radio cymunedol yn credu y bydd trwyddedau FM yn eu galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Mae galw clir, ac angen parhaus, am drwyddedau radio FM. Rydym yn argymhell bod Ofcom yn ailddechrau cynnig trwyddedau FM, gan dargedu gorsafoedd radio lleol a chymunedol yn arbennig.

[Meithrin y cyflenwad sgiliau i ddarlledu Cymraeg](#)

Rydym yn pryderu y gallai cyflwyno comisiynu mewnol yn Channel 4 niweidio cwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn, rhaid i'r Llywodraeth amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau y bydd cyflwyno comisiynu mewnol gan Channel 4 yn helpu yn hytrach na niweidio'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Rydym yn galw ar y Llywodraeth i wneud newidiadau i'r Bil y Cyfryngau Drafft i adlewyrchu ein pryderon. Hefyd, rydym yn galw ar Channel 4, mewn ymateb i'r Adroddiad hwn, i amlinellu eu hymrwymiad i gomisiynu gwaith gan gwmnïau cynhyrchu o Gymru.

Gall prentisiaethau fod yn ffordd effeithiol a phwerus o ddatblygu gweithlu medrus ac amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r system prentisiaethau presennol o fewn y sector darlledu yn hyblyg, ac nid yw'n adlewyrchu anghenion sector llawrydd, seiliedig ar brosiectau. Rhaid sicrhau diwygiadau sylfaenol i'r Ardoll Brentisiaethau yn y DU. Rydym yn galw ar Lywodraethau'r DU a Chymru i adolygu'r Ardoll Brentisiaethau a chyflymu'r broses o

gyflwyno'r model rhannu prentisiaethau yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod o fudd i'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y
Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol

18 Hydref 2023

Trydydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Annwyl Delyth,

Fel y gwyddoch, mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rôl bwysig o ran goruchwyllo gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ac unrhyw gytundebau rhyngddynt yn y dyfodol, ac ef yw'r unig gorff a all ddwyn i gyfrif y Cyngor Partneriaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Gweinidogion Llywodraeth y DU.

Gwnaethom gynrychioli'r Senedd yn nhrydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar 3-4 Gorffennaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol drafodaethau pwysig ar nifer o faterion. Gwnaeth grŵp trafod ar symudedd dynnu sylw at y materion parhaus i sector y celfyddydau a diwylliant o ran teithio a mynd ar daith. Roeddem yn gallu tynnu sylw at dystiolaeth ar y mater hwn a gasglwyd gan eich Pwyllgor yn ei ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a amlygodd fod problemau o hyd er gwaethaf yr Ardal Deithio Gyffredin.

Ailadroddodd y grŵp trafod yr argymhelliad a wnaed yn flaenorol i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb y dylai'r UE a'r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a'r DU.

Ysgrifennwn atoch i dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniadau'r cyfarfod, gan obeithio y bydd o ddiddordeb i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad

Luke Fletcher

Luke Fletcher AS
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion
Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Adroddiad cryno ar y trydydd cyfarfod

Hydref 2023

Mae Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE yn gorff ffurfiol a sefydlwyd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Mae'n chwarae rôl bwysig o ran goruchwyllo gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a phob cytundeb arall rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym Mrwsel ar 3-4 Gorffennaf. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd sydd o bwys i Gymru. Gwnaeth yr adroddiad cryno ar gyfarfod blaenorol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bum argymhelliad ynghylch datblygu'r modd y mae'r Senedd yn ymgysylltu â'r corff hwnnw. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion hynny rhwng yr ail a'r trydydd cyfarfod.

Yn cymryd rhan yn y trydydd cyfarfod oedd Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; a Luke Fletcher AS, aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Yn rhinwedd hynny, felly, maent wedi cytuno ar yr adroddiad.



Cynnwys

1. Materion sydd o bwys i'r Senedd ac i Gymru.....	2
"Taflwybr mwy cadarnhaol".....	3
Arwyddion o gydweithio pellach.....	3
Sicrhau cyflenwadau ynni.....	3
Galwad am arweinyddiaeth fyd-eang ar gydweithio ynghylch yr hinsawdd.....	4
Mynediad at raglen Horizon.....	4
Awydd cyffredin i wella symudedd.....	4
Cynnwys lleisiau dinasyddion drwy gydweithio yn y gymdeithas sifil	5
Posibiliadau ehangach o ran cydweithio ar bolisiau gwyrdd ym maes diwydiant a masnach?.....	6
"Condemni'n ddiwro y rhyfel ymosodol digymell ac anghyfiawn yn erbyn Wcráin".....	6
2. Cyfranogiad y Senedd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.....	7

1. Materion sydd o bwys i'r Senedd ac i Gymru

Mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE yn cwmpasu meysydd pwysig sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu sy'n cael effaith sylweddol arnynt. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhain, sut y maent yn effeithio ar Gymru, a rôl y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn y canllawiau a'r ffeithluniau a luniwyd gan Ymchwil y Senedd mewn perthynas â'r cytundeb.

Mewn arwydd bod y cytundeb ar Fframwaith Windsor wedi newid naws ac awyrgylch y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ynghyd â'r awydd am gydweithio pellach o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, roedd yr agenda a'r trafodaethau'n ymdrin â meysydd lle gallai cydweithio pellach fod yn bosibl yn y

dyfodol a lle mae gan y ddwy ochr ddiddordeb cyffredin mewn cydweithio pellach.

Gallwch wylio'r trafodion yn llawn ar wefan dirprwyaeth y DU i Senedd Ewrop.

“Taflywbr mwy cadarnhaol”

Mae gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon a thelerau Fframwaith Windsor yn fater o bwys i borthladdoedd, busnesau a dinasyddion Cymru. Yn y Senedd, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn monitro'n ofalus effaith y broses o weithredu'r protocol ar Gymru.

Dywedodd Maroš Šefčovič, Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, fod y cam o gytuno ar Fframwaith Windsor wedi sicrhau bod y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar “daflywbr mwy cadarnhaol”. Croesawodd James Cleverly, Ysgrifennydd Tramor y DU, y broses o feithrin ymddiriedaeth, hyder a dealltwriaeth rhwng y ddwy ochr. Roedd yr awyrgylch mwy cydweithredol yn werth ei nodi ac i'w groesawu'n fawr.

Pwysleisiodd yr Is-lywydd Šefčovič fod angen parhau â'r gwaith o weithredu Fframwaith Windsor, a hynny ar frys. Bydd y modd y caiff materion sy'n ymwneud â gweithredu eu datrys o ddiddordeb mawr i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi awgrymu ei bod yn bwriadu cydsynio i reoliadau sy'n gweithredu'r Fframwaith mewn meysydd datganoledig.

Arwyddion o gydweithio pellach

Tynnodd y ddwy ochr sylw at y ffaith bod y DU a'r UE wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol, gan nodi bod hyn yn dangos bod modd cytuno ar gydweithio pellach.

Sicrhau cyflenwadau ynni

Mewn ymateb i'r argymhelliad ar y cyd ar gydweithio ym maes ynni a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn ystod ei ail gyfarfod, nododd y Cyngor Partneriaeth fod y DU a'r UE wedi cytuno i drafod yn rheolaidd materion sy'n ymwneud â diogelwch cyflenwadau. Nododd hefyd fod y DU wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiwn Ynni Môr y Gogledd, sy'n cynnwys cydweithio ar brosiectau hybrid a phrosiectau ar y cyd, cynllunio gofodol morol, ariannu prosiectau ynni adnewyddadwy a chyfnwid arfer gorau. Yn y deunydd briffio a ddarparwyd gennym ymlaen llaw i ddirprwyaeth y DU, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd cydweithio ym Môr Iwerddon a'r Môr

Celtaidd mewn perthynas â phrosiectau ynni adnewyddadwy a phrosiectau rhyng-gysylltwyr yng Nghymru, a'r gobaidh y gellir parhau i gryfhau cydweithio yn y meysydd hyn mewn ffyrdd tebyg i'r cydweithio sy'n digwydd ym Môr y Gogledd.

Galwad am arweinyddiaeth fyd-eang ar gydweithio ynghylch yr hinsawdd

Gwnaeth y grŵp llai ar ynni a'r hinsawdd dynnu sylw at y potensial enfawr ar gyfer cydweithio rhwng yr UE a'r DU ynghylch cyflawni targedau sero net, datgarboneiddio a diwygio marchnadoedd trydan. Galwodd am gydweithio ar y broses o ddatblygu mecanweithiau i addasu ffiniau carbon a chreu pwyllgor arbenigol ar sero net o dan strwythur llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Gwnaeth y grŵp llai ddarparu llwyfan ar gyfer trafod gwaith pwyllgorau'r Senedd ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sero net, a'r polisiau a'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yng Nghymru gyda'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Derbyn i raglen Horizon

Roedd derbyn y DU i raglen ymchwil Horizon yn bwnc amlwg iawn a gododd mewn nifer o sesiynau a grwpiau llai. Galwodd aelodau o bob rhan o'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar Lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i ddod â thrafodaethau i ben a sicrhau cytundeb cyn gynted â phosibl.

Yn ystod sesiynau'r grwpiau llai ac yn ein deunydd briffio i ddirprwyaeth y DU, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i'r sector ymchwil, arloesi ac addysg uwch yng Nghymru sicrhau mynediad cyflym i raglen ymchwil Horizon. Gwnaethom bwysleisio'r ffaith y dylid cynnwys unrhyw waith dadansoddi a wnaed gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â gwerth am arian wrth ystyried ffactorau fel ansawdd partneriaethau a chanlyniadau ymchwil.

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad dilynol ar gysylltiad y DU â Horizon.

Awydd cyffredin i wella symudedd

Mae gallu dinasyddion y DU a dinasyddion yr UE i symud rhwng y DU a'r UE at ddibenion astudio, gweithio ac ymgymryd â gweithgarwch hamdden yn parhau i fod yn ffocws allweddol i aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Gwnaeth y grŵp llai ar symudedd dynnu sylw unwaith eto at y materion parhaus y mae sector y celfyddydau a diwylliant yn eu hwynebu o ran teithio. Roeddem

yn gallu tynnu sylw at dystiolaeth a gasglwyd ar y mater hwn gan bwyllgor diwylliant y Senedd fel rhan o'i [ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon](#), gan fod problemau'n parhau i ddod i'r amlwg er gwaethaf yr Ardal Deithio Gyffredin. Gwnaeth y grŵp ailadrodd yr argymhelliad a wnaed yn flaenorol i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sef y dylai'r UE a'r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a'r DU.

Mae aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn parhau i bryderu am y ffaith bod llai o gyfleoedd ar gael, ac am y rhwystrau sy'n bodoli o ran symudedd a lefelau ymgysylltu pobl ifanc. Gwnaethom dynnu sylw at waith rhaglen cyfnewid dysgu Llywodraeth Cymru, sef rhaglen Taith, a'i helfennau cyfatebol. Gwnaeth y [grŵp llai](#) annog y Cyngor Partneriaeth i hwyluso symudedd ymhlith plant ysgol drwy ddefnyddio cardiau adnabod a thrwyddedau grŵp.

Mae materion parhaus ynghylch statws preswylwyr sefydlog a statws preswylwyr cyn sefydlu ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n dymuno aros yn y DU yn parhau i beri pryder. Mae [Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd](#) yn monitro'r mater hwn yng Nghymru.

Cynnwys lleisiau dinasyddion drwy gydweithio yn y gymdeithas sifil

Nododd aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol fod rhaglen Horizon a symudedd ymhlith pobl ifanc yn elfennau allweddol o wella cydweithio yn y gymdeithas sifil. Pwysleisiwyd y ffaith bod y dasg o ddatrys y materion hyn yn fater o bwysigrwydd cyffredin i aelodau o'r ddwy ochr.

Mae ymgysylltu pellach rhwng y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a chymdeithas sifil, a'r ddeialog ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE, yn fater y mae aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn awyddus i'w archwilio. Mae'r Senedd a sefydliadau eraill yng Nghymru wedi bod yn weithgar o ran cefnogi gweithgarwch ymgysylltu rhwng cymdeithas sifil Cymru a'r UE yn sgil Brexit. Roedd y drafodaeth a gafwyd ar y materion hyn yn gyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn. Mae'r gwaith o gynnwys cymdeithas sifil Cymru yn y broses o feithrin cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn elfen allweddol o ymchwiliad y [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i Lywodraethiant y DU a'r UE](#). Mae'r Pwyllgor yn gobeithio cyflwyno adroddiad cyn cyfarfod nesaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr.

Posibiliadau ehangach o ran cydweithio ar bolisiau gwyrdd ym maes diwydiant a masnach?

Roedd Bargen Werdd yr UE, 'Fit for 50' a'r Ddeddf Lleihau Chwyddiant yn yr Unol Daleithiau yn sail i drafodaethau ar gyfleoedd pellach i gydweithio ar bolisiau diwydiannol. Gwnaeth yr Arglwydd Johnson, Gweinidog Buddsoddi y DU, arddel cydweithio agos at ddibenion cynhyrchu cadwyni cyflenwi gwydn, yn enwedig mewn perthynas â datblygu technolegau newydd. Gwnaeth Mr Richard Szostak, Cyfarwyddwr Partneriaid Gorllewin Ewrop yn y Comisiwn Ewropeaidd, bwysleisio'r ffaith bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar weithredu a gwireddu potensial y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llawn cyn canolbwyntio ar feysydd pellach o gydweithio y tu hwnt i'r cytundeb. Yn ogystal, ategodd neges yr Is-lywydd Šefčovič, sef y bydd ymwahanu pellach, o reidrwydd, yn golygu rhwystrau pellach i fasnach. Ategodd hefyd bryderon parhaus y Comisiwn ynglŷn â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, gan nodi y bydd yr UE yn rhoi sylw manwl i unrhyw newidiadau deddfwriaethol a wneir. Gwrthododd y Senedd gydsynio i'r Bil, ond cafodd y Ddeddf ei phasio gan Senedd y DU heb gydsyniad.

Yn ein deunydd briffio ar gyfer dirprwyaeth y DU, gwnaethom bwysleisio bod rhwystrau technegol i fasnachu gyda'r UE yn parhau i fod yn bryder allweddol i lawer o fusnesau yng Nghymru.

“Condemni’n ddiwyro y rhyfel ymosodol digymell ac anghyfiawn yn erbyn Wcráin”

Yn ei ail argymhelliad i'r Cyngor Partneriaeth, gwnaeth y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ailadrodd y ffaith ei fod yn condemnio'n ddiwyro y rhyfel yn Wcráin, y ffaith ei fod yn cefnogi Wcráin, a'r ffaith bod angen cydweithio rhwng yr UE a'r DU, yn enwedig mewn perthynas â pholisi cosbau effeithiol. Galwodd hefyd am ddwysáu'r ddeialog ynghylch y cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydgyssylltu yn y dyfodol ar faterion tramor a materion diogelwch cyffredin rhwng y DU a'r UE. Mae wedi gofyn i'r Cyngor Partneriaeth adrodd yn ôl ar ei argymhelliad cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r Senedd wedi bod yn unfrydol wrth gefnogi cynigion sy'n condemnio'r rhyfel ac yn mynegi undod â phobl Wcráin.

2. Cyfranogiad y Senedd yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol

Mae gan ddeddfwrfeydd datganoledig lawer i'w gyfrannu at waith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, fel y dengys yr adroddiad hwn. Mae'r cyfraniad cadarnhaol a wneir gan aelodau datganoledig at waith y grwpiau llai, a'r cyfle gwerthfawr i godi materion a sôn am arfer da yng Nghymru yn y grwpiau hynny, yn dangos yn glir fanteision ein cynnwys yn y trefniant hwn.

Gwnaeth ein [hadroddiad cryno](#) ar ail gyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bum argymhelliad ar gyfer datblygu'r berthynas rhwng y Senedd a'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ymhellach. Mae cynnydd wedi'i wneud ar sawl un o'r argymhellion hynny, ond byddwn yn parhau i weithio a phwyso am gynnydd pellach ar argymhellion eraill.

Argymhelliad 1: Bod y gwelliannau a wnaed i gyfranogiad y deddfwrfeydd datganoledig yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol bellach yn cael eu gwreiddio fel arfer gwaith cyffredin.

Argymhelliad 2: Bod ystyriaeth yn parhau i gael ei rhoi gan Swyddfa'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i'r deddfwrfeydd datganoledig allu gymryd rhan yn nhrefodaethau'r Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig.

Mae cynnwys grwpiau llai ar yr agenda am yr eildro, a gwahodd aelodau datganoledig i gymryd rhan lawn yn y grwpiau hynny, yn dangos bod y datblygiadau cadarnhaol a wnaed yn yr ail gyfarfod yn cael eu hymgorffori. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae hyn yn ei roi o ran cyfrannu at y trafodaethau pwysig sy'n cael eu cynnal. Mae'r ffaith bod y ddau sefydliad yn cyhoeddi'r pwyntiau sy'n cael eu codi gan y grwpiau llai hefyd yn gam i'w groesawu'n fawr, gan ei fod yn hyrwyddo tryloywder a lefelau ymgysylltu â'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r amser cyfyngedig sydd ar gael i holl aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol gyfrannu yn ystod dadleuon yn y Cyfarfod Llawn. Serch hynny, rydym yn parhau i bwysu am amser i'r deddfwrfeydd datganoledig siarad mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar feysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rôl hynod bwysig o ran cryfhau'r berthynas rhwng y DU a'r UE, a gall y deddfwrfeydd datganoledig wneud cyfraniad cadarnhaol at y broses o ddatblygu syniadau a rhannu arfer da.

Yn yr un modd, dim ond cryfhau gwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol y bydd cyfraniad cynrychiolwyr rhanbarthol Ewropeaidd a'r gymdeithas sifil ehangach yn ei wneud.

Gwnaethom ddarparu briff ysgrifenedig cyn y cyfarfod i ddirprwyaeth y DU, a hynny er mwyn codi materion sydd o bwys penodol i'r Senedd ac i Gymru. Rydym yn gobeithio bod y briff hwn wedi bod yn adnodd defnyddiol o ran llywio cyfraniadau dirprwyaeth y DU. Gwnaethom gyfarfod hefyd â'r Gwir Anrhydeddus Hilary Benn, un o'r Is-Gadeiryddion, ymlaen llaw. Byddwn yn parhau i geisio datblygu ein perthynas a'n gweithgarwch ymgysylltu ag aelodau o ddirprwyaeth y DU.

Argymhelliad 3: Bod cynrychiolwyr y Senedd a phwyllgorau perthnasol y Senedd yn cydweithio i ddatblygu yr perthynas ag aelodau dirprwyaethau y DU a'r UE y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Argymhelliad 4: Bod adroddiadau ar ganlyniadau sesiynau'n cael eu rhannu fel mater o drefn a'u dwyn i sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom dynnu ein hadroddiad diwethaf at sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a Phrif Weinidog Cymru. Rydym yn ddiolchgar am eu hymateb cadarnhaol ac rydym yn parhau i ymgysylltu â nhw.

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd wedi gwahodd pwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU i gymryd rhan yn ei ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE a chyfarfu ag Aelodau o Senedd Ewrop sy'n rhan o ddirprwyaeth yr UE yn ystod ei ymweliad â Brwsel ym mis Medi.

Mae gan bwyllgorau eraill y Senedd gynlluniau i ymweld â Brwsel dros y 12 mis nesaf er mwyn trafod materion sy'n berthnasol i waith y Cynulliad Partneriaeth

Seneddol. Byddant yn parhau i geisio meithrin perthynas â chymheiriaid yn eu meysydd priodol.

Rydym yn nodi'r galwadau penodol gan y Comisiwn Ewropeaidd parthed codi proffil gwleidyddol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'i strwythurau llywodraethu, a byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o waith pwysig y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Argymhelliad 5: Bod mecanweithiau'n cael eu datblygu i ymgysylltu â chymdeithas sifil Cymru ar waith Aelodau o'r Senedd yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol – a hynny cyn y cyfarfodydd ffurfiol ac ar ôl y cyfarfodydd i roi adborth ar y trafodion.

Cawsom gyfle i ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid cyn y trydydd cyfarfod, a gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein deunydd briffio ar gyfer dirprwyaeth y DU a'r cyfraniadau yn y grwpiau llai. Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny a oedd yn gallu llywio ein gwaith ar fyr rybudd. Un her allweddol wrth geisio ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid cyn cyfarfodydd yw'r ffaith nad yw'r agendâu yn dod i law tan tuag wythnos cyn y cyfarfod dan sylw, fan gynharaf.

Er bod hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid ar eitemau penodol ar yr agenda, mae cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion cyffredinol sydd o bwys iddynt cyn cyfarfodydd ac i geisio dylanwadu ar gynnwys yr agenda. Y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol, mae cyfleoedd hefyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r dirprwyaethau ynghylch unrhyw faterion sy'n cael eu nodi drwy waith ymgysylltu ffurfiol â rhanddeiliaid.

Yn ogystal, byddwn yn chwilio am gyfleoedd pellach i gydlynu gwaith ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol â'r gwaith a wneir gan Aelodau o'r Senedd sy'n gwasanaethu ar Grŵp Cyswllt y DU ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau i geisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i godi materion sydd o bwys i Gymru.

Item 4.5 Mhwyllgor Beddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddDCC

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

senedd.wales/SeneddLJC

0300 200 6565

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,

Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

17 Hydref 2023

Annwyl Delyth,

Y dull strategol y mae Llywodraeth Cymru am ei ddilyn yn awr mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd.

Ddydd Gwener 6 Hydref cefais llythyr gan y Prif Weinidog, yn dilyn ei ymddangosiad gerbron fy Mhwyllgor ddydd Llun 18 Medi, ble'r oedd yn amlinellu'r dull gweithredu strategol y mae Llywodraeth Cymru am ei ddilyn yn awr mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd.

Nodasom y llythyr yn ein cyfarfod ddydd Llun 9 Hydref, a gellir ei weld yma: LJC(6)-27-23 - Papur 16 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 6 Hydref 2023.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon